Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 5. Rhif 4.] EBRILL. 1905. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Dringfa Sant Awstin.
Nyth y Fran.
Natolig yn yr Almaen.
Adolygiadau.
Y Parch. John Joseph George.
Cyfres yr Edifeiriol.
Marwgofion.
Concl. Gwybodaeth. Gyffredinol.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a chofnodion eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

WEDROSIA:

Yn cynwys y Nofel Fuddugol yn Eisteddfod Mountain Ash, gan T. WEDROS EVANS. Un o'r llyfrau mwyaf difyr yn yr iaith Gymraeg.

PRIS 6c.; trwy y *Post*, 7c.

Hanes PLWYFI LLANGELER a PHENBOYR

Gan D'ANIEL E. JONES.

Buddugol yn Eisteddfod Drefach-Velindre, 1897. Wedi ei adolygu a'i helaethu, a chyda *Map* o'r Plwyfi.

Yn rhad trwy y *Post* am 3s. 6ch.

LLYFRAU CYMRAEG YN EISIEU.

"YR YMOFYNYDD" am 1868, 1869, 1870, 1871, 1872,

HYMNAU GAN JENKIN JONES, LLWYNRHYDOWEN, 1768.

Anfoner pob hysbysrwydd i J. D. LEWIS,
Swyddfa "Yr Ymofynydd," Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

SHOP Y JONES, LLANDYSSUL.

BEN JONES,

DRAPER, GROCER, IRONMONGER, &c.

Ladies' Jackets and Gent's Coats of every description at Lowest Prices.

Guns from £1 to £10. Cartridges by all the well-known makers.

Try our Special Indian Tip Tea 1s. 8d. per lb.

Ardwyn, Lampeter.

TIMOTHY RICHARDS,

Ironmonger and General Merchant.

Agent for Bradbury's Sewing Machines; J. Pullar & Sons, Dye Works, Perth; J. & B. White's Portland Cement; and for all kinds of Agricultural Implements.

Enormous Stock of Hanging Papers always on hand.

Guns, Pistols and Ammunition by John Hall, Curtis & Harvey, Eley's Nobel's and Kynock's.

Fencing, Barb, and Netting Wires, } At Old Prices.
Chain Harrows, and Cast Hand Mowers, } Bought before the advance.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq, F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU,

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd: Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel.
Prifathraw: T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau (Arts) Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts) ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution.

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £10 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg 'Gymnasium,' Cychod, 'Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden, a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E. A. Carpenter.

Am Prospectus a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

T. Mortimer Green, Registrar.

T. E. JONES & CO.,

ESTABLISHED 1852.

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

London House, Llandyssul.

Children's Millinery & Costumes always in Stock.

B. MORRIS,

MILLINER,
& FANCY DRAPER.

Wedding & Mourning . . . . Orders Promptly Executed.

Grand Assortment of Spring Millinery now shown.

Ordination Outfits Completed.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical Tailor,

LINCOLN HOUSE, Llandyssul.

Liveries and Breeches Making.

An assortment of Raincoats, Waterproof Coats & Ladies' Jackets, and Boys' Ready-made Suits always in Stock.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD.,
BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.



"Our Watches have stood the Test of Time."

They are made of honest materials and perfect workmanship.

They are strictly moderate in price.

They are fully guaranteed, and are backed up by an excellent reputation of

Forty Years' Standing.

Call and inspect our varied Stock, or write for a selection to be sent free "On approval" at the shortest notice.

D. JONES & SON,

WATCHMAKERS, JEWELLERS, & OPTICIANS,

LLANDYSSUL.

We have always on view a large and tasty Stock of Wedding and Birthday Presents in Gold, Silver, and Electro-Plate.

Y "Postal Mission" Undodaidd Cymreig.

Ceir y Traethodynau (*Tracts*) canlynol yn rhad trwy y *Post*—

"Y Gwyliedydd, beth am y nos?" Gan y Parch. R. J. Jones, M.A.

"Crefydd Cymru Fydd." Gan y Parch. W. James, B.A.

"Lle Teimlad a Rheswm mewn Crefydd," a "Ddoe, Heddyw, ac Yfory mewn Crefydd." Y ddau gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S.

"Tueddiadau'r Oes." Gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

Rhoddir benthyg y ddau lyfryn canlynol yn rhydd trwy'r Post—

"Banau Ffydd Undodwr." Gan Dr. Freeman Clarke.

"Yn ol at Iesu." Gan y Parch. R. A. Armstrong, B.A.

Y ddau yn yr iaith Gymraeg. Pris yr olaf yw 3c.

Anfoner at y Parch. LEWIS WILLIAMS, Talsarn, R.S.O., Card.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1905. [CYF V. RHIF 4.

NODION Y MIS.

GANWYD Dr. James Martineau ar yr 21ain o Ebrill 1805, a bwriedir dathlu can'mlwyddiant ei enedigaeth yn ei ddinas enedigol—Norwich, ac hefyd yn Ngholeg Manchester, â'r hwn y bu ei gysylltiad fel myfyriwr, proffeswr, a phrifathraw mor agos am hir flynyddau cyn symudiad y Coleg i Rydychen. Deallwn hefyd y bydd oedfa, fel y dywedir, yn nghyfarfod chwarterol nesaf y Gymdeithas Undodaidd Gymreig a gynhelir yn y Wîg, yn cael ei chyflwyno i'w goffadwriaeth fel un o brif Undodiaid y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erys ei enw, gyda Priestley, Channing, Emerson a Parker, fel un a daflodd lewyrch na chysgodir byth ar yr Eglwys Undodaidd; ar lwyfan eangach y byd Cristionogol rhifir ef yn mhlith yr anfarwolion yn nghymdeithas Schleiermacher a Newman, Maurice a Stanley, Beecher a Spurgeon, a'r mwyaf o honynt i gyd fel un a gyfranodd elfenau parhaol i feddwl crefyddol ei oes.

Trwy y rhan fwyaf o'i fywyd hir bu ei gysylltiadau enwadol yn rwystr ar y ffordd iddo gael ei werthfawrogi fel ag y dylai. Yr oedd hyd yn nod Thomas Carlyle mor anfoneddigaidd a gwneud cyfeiriad gwawdus ato fel Sosin. Mewn erthygl hirfaith ar ei chwaer, Harriet, yn yr *Encyclopaedia Britannica* a gyhoeddwyd yn 1883, nid oes unryw gyfeiriad at ei enw o gwbl. Dywedodd un o'i feirniaid ar ol ei farwolaeth nad oedd e' ddim yn ysgolor—dyn oedd yn feistr, os bu neb erioed, ar un adran fawr o astudiaeth, a hono yr anhawddaf a mwyaf dyrus. Syniad rhai pobl am ysgolor yw "*Oxford man*," wedi pasio yn y dosparth cyntaf mewn "*Greats*" fel y dywedir, neu mewn Lladin a Groeg. Syniad Mommsen, yr hanesydd Rhufeinig, na feiddia un "*Oxford man*" na neb arall amheu ei fod i fyny â'r *mark* fel ysgolor ydyw hwn:—"Rhaid i bob un wneud efrydiaeth neillduol o un gangen o wybodaeth, ond ni ddylai gyfyngu ei hun

iddi. Mor fychan a thruenus yw'r byd yn ngolwg y dyn nad yw yn gwybod dim ond awduron Groeg a Lladin a *phroblems* mewn *Mathematics.*" Os nad oedd Martineau yn "*Oxford man,*" yr oedd e'n ysgolor, yn ol Mommsen, ac wedi gwneud efrydiaeth neillduol ac i bwrpas o'i gangen ddewisedig, a hyny heb esgeuluso meusydd eraill oeddent mor adnabyddus iddo ef a'r goreu o'i gydoeswyr.

Gwers fawr ei fywyd oedd ei ffyddlondeb i gyfundeb bychan ei enwad ei hun; yr hyn a gollodd o fanteision ac anrhydedd o herwydd hyny; ond er gwaethaf y cwbl a ffeindiodd lefel ei fawredd yn y diwedd fel un o brif ddynion ei oes. Pan y bu farw, yr oedd Dr. Parker a Dr. Guinness Rogers yn gorfod cyfaddef ei fod yn un o saint yr Eglwys Gristionogol, er y gwyddai yr olaf y dylai fod yn fater o ystyriaeth sut y gallai hyny fod yn ngwyneb diffygion ei gredo. Mae Dr. Martineau yn ei fedd bellach er ys mwy na phum' mlynedd, ac ychydig glywir erbyn heddyw am ddiffygion ei gredo. Mae mawredd personoliaeth, mawredd meddwl, mawredd cymeriad, a mawredd dylanwad wedi cuddio pob peth arall o'r golwg, ac wedi gwneud coffadwriaeth yr athronydd, y gweledydd a'r proffwyd am byth yn fendigedig.

Mae cyfaill wedi bod mor garedig ag anfon i ni gopi o Raglen Addysg Foesol a Beiblaidd sydd wedi ei pharotoi gan y Parch. J. Morgan Jones, B.A. ar gyfer ysgolion yr awdurdod lleol yn Aberdar. Mewn cysylltiad a dadl addysg yn y dyddiau hyn, yr ydym wedi clywed son byth a hefyd am "awyrgylch" neu *atmosphere*, heb ddeall yn iawn beth a olygir. Ceisiwch gopi o Raglen addysg grefyddol Esgob Ty Ddewi ar gyfer ysgolion Eglwysig ei Esgobaeth; cymharwch hi yn fanwl ag un y Parch. J. M. Jones, a bydd gyda chwi syniad go lew beth olygir wrth "awyrgylch Eglwysig." Wel, awyrgylch Eglwysig yw yr Eglwys, yr offeiriad, y Llyfr Gweddi a'r Catecism, wedi eu trosglwyddo tufewn i furiau yr ysgoldy i fod yn bresenoldeb arosol yn nghanol plant y bobl o ddydd i ddydd. Am Raglen Aberdar nid oes mwy o naws nac arogl yr Eglwys arni nag sydd ar y Bregeth ar y Mynydd neu ddameg y Samaritan Trugarog. Mae y Beibl wedi ei ddihatru fel pe byddai o'i gysylltiadau traddodiadol a'i ddefnyddiau eglwysig, a'i wersi goreu wedi eu cyfaddasu at anghenion moesol yr ysgol, ac mae'r gwaith wedi ei wneud mewn modd mor alluog, mor drwyadl, mor deg a chyfiawn, fel ag i enill ein hedmygedd llwyraf. Buasai yn llawenydd genym i weled arwyddion ei bod yn bosibl i benderfynu dadl addysg grefyddol a moesol ar sylfaen y cynllun hwn. Ond heb son am Eglwys Lloegr, a ydyw Ymneillduwyr Cymru yn barod heddyw i dderbyn y cynllun hwn fel yn boddloni yr *ideal* sydd ganddynt am addysg

foesol a chrefyddol? Yr ydym yn ofni nad ydynt. Ond yr ydym yn falch fod yr ymgais wedi ei gwneud, ac fod gan un awdurdod addysgol beth bynag welediad digon clir i ogwydd ac angenrheidrwydd pethau fel ag i'w gwerthfawrogi. Llongyfarchwn yr awdwr galluog ar ei lwyddiant. Llyfryn bychan ydyw, ond mae ol astudiaeth a "llafurus gariad" ar bob tudalen. Sicr ydym fod aml i gyfrol dri-a-chwech o Bregethau neu Farddoniaeth yn cael eu troi allan yn Nghymru gyda llai o drafferth na'r pamphledyn tair ceiniog hwn.

Beth mae'r ysfa am fyn'd yn ol i'r hen oesau Cristionogol am awdurdod ac ysprydoliaeth yn olygu? Planodd Eglwys Rydd Yscotland ei hun ar dduwinyddiaeth y ddwyfed ganrif ar bymtheg, erlidiodd rhai o'i dynion goreu megis Robertson Smith allan o'i therfynau, ac erbyn heddyw mae y llong wedi myn'd yn ddrylliau ar y graig lle y tybid unwaith y safai unig oleuni ei diogelwch. Ceisia adran o Eglwys Lloegr i atal llifeiriant y defodau sydd ar ymchwydd o hyd, ac yn bygwth gorchuddio ei hunaniaeth fel Eglwys Lloegr allan o'r golwg. Ac yn awr mae Dr. Wace, Deon Canterbury, gyda phlaid tu cefn iddo, newydd gyflwyno deiseb i'r Archesgob wedi ei llawnodi gan filoedd o offeiriaid, yn gofyn fod athrawiaeth a defodaeth yn Eglwys Lloegr yn cael eu rheoli yn ol esiampl ac awdurdod y chwech canrif gyntaf. Mae pob peth a ddaeth i fewn ar ol hyny i gael eu ystyried yn anghyfreithlon.

Byddai yn anhawdd dychymygu am un cynllun yn fwy afresymol ac yn fwy anghydnaws ag yspryd yr oes ydym ni yn byw ynddi; ac mae'n syndod fod dynion fel Dr. Wace sydd yn llenwi swyddi uchel ac yn ddysgedigion o fri yn cael eu harwain i bleidio y fath symudiad. Mae'n bosibl y byddai'r cynllun yn effeithiol i osod atalfa ar y dwymyn Rufeinig sydd yn blino yr Eglwys; ond onid y syniad iawn am eglwys fel am deyrnas nefoedd, a dybir sydd yn cael ei chynrychioli ganddi, yw mai rhywbeth sydd yn tyfu ydyw, ac yn myned ar gynydd, ac yn cymhwyso ei hun at angenion oes ar ol oes? Hyd yn nod pe byddai yn bosibl i gael gafael ar wir gynllun yr Eglwys Apostolaidd o ran athrawiaeth a defodaeth, byddai yn groes i natur pethau i'w thrawsblanu i ddaear yr ugeinfed ganrif. Allwn ni ddim myned yn ol o gwbl. Mae pob rheswm a chyfatebiaeth yn yn ein cymhell rhag blaen, Nid yw addysg, esiampl ac ysprydoliaeth y gorphenol ond help i wneud y dyfodol yn fwy disglaer a ffrwythlawn.

O bosibl na fyddai Dr. Wace yn cymeradwyo ymresymiad o'r fath yna. Ond beth am ochr arall sydd i'r cwestiwn? Os ydyw ef a'i gyfeillion yn awyddus fod yr eglwys i gael ei rheoli gan ddulliau ac athrawiaethau y chwech canrif gyntaf, mae hyny yn golygu fod yn rhaid iddynt dderbyn ei chyfeiliornadau hefyd. Credai yr eglwys hyd amser Anselm yn yr unfed ganrif ar ddeg fod yr Iawn ar Galfaria yn bris a dalwyd gan Iesu Grist i'r Diafol am eneidiau dynion. Dygodd Anselm ddamcaniaeth newydd i fewn. Derbyniwyd hi gan yr Eglwys; aeth y Diafol allan o'r drafodaeth, a chyfrifir yr hen syniad yn heresi.

Credo Nicea oedd Credo yr Eglwys oddiar 325 O.C.; ac nid yw yn dysgu Trindod o gwbl yn ystyr Credo Sant Athanasius, a ddaeth i'r golwg yn y nawfed ganrif. Ni wyddai hen dadau yr eglwys ddim am dri o dduwiau gogyfuwch yn gwneud i fyny y Drindod. Ni wyddent ddim am y Cwymp yn Adda, a dynoliaeth mewn canlyniad yn haeddianol o farwolaeth dragwyddol, a rhyw ychydig yn cael eu hethol i fywyd yn anibynol ar eu haeddiant eu hunain. Athrawiaethau a ddygwyd i fewn oedd y rhai hyn gan Awstin o Hippo ar ol Nicea, ond i gyd wedi ffeindio eu lle erbyn hyn yn erthyglau yr Eglwys. Beth olyga Dr. Wace wneud o'r rhai hyn os ydyw ef am gyfyngu addysg yr Eglwys i safonau awdurdodedig y chwech canrif gyntaf, ac yn neillduol i Gredo Nicea? Beth sydd i wneud o Gredo Sant Athanasius? 'Does dim iachawdwriaeth wrth edrych yn ol. Da fyddai i Dr. Wace a'i gyfeillion i gofio yr hen gynghor—"Cofiwch wraig Lot."

DRINGFA SANT AWSTIN.—I.*

(*The Ladder of St. Augustine.*)

Cyfystyr y Gymraeg i'r Saesneg *Ladder* yw Ysgol; ond y mae'r Ysgol yn golygu dau beth gwahanol iawn,—yn gyntaf yr offeryn sydd yn galluogi'r tŵr neu'r tiler i esgyn i ben y tŷ, ac yn ail, y lle y derbynia'r plentyn gyfarwyddyd i esgyn grisiau gwybodaeth.

---

* Cymhellwn lyfrau'r Parch. R. A. Armstrong i sylw'r darllenydd Seisoneg. Y maent yn oleulawn.

Golyga'r ddwy ysgol help i ddringo, ac am hyny y dewiswn yma y gair dringfa am *ladder*. Y mae Sant Awstin yn enwog yn hanes y byd—enwog fel duwinydd, athronydd, a llenor, a'i ddylanwad yn fawr ac yn gyrhaeddbell, gan y darllenir ei weithiau hyd y dydd heddyw. Eiddo Sant Awstin yn benaf yw duwinyddiaeth John Calvin. Ganwyd Sant Awstin Tachwedd 13, 353, a bu farw Awst 28, 430. Gwelir wrth hyny ei fod wedi pasio ymaith er ys yn agos i bymtheg cant o flynyddoedd. Ganwyd John Calvin 1509, bu farw 1564.

Ond am "Ysgol" Sant Awstin y mynwn ni ysgrifenu yn bresenol, a dyma hi mewn pump o eiriau Lladin :—

Sum, Scio, Possum, Debeo, Volo;

y rhai a gyfiethwn fel hyn: Mi wyf, Mi wn, Mi allaf, Mi ddylwn, Mi wnaf.

Nis gwn sut yr ymhelaethai Sant Awstin ar y geiriau hyn; ond y mae'r geiriau eu hunain yn awgrymiadol,a chyda'ch cenad, Mri. Gol., mi garwn ddychymygu; ac yn gyntaf gyda'r Mi wyf. I ba beth, neu i bwy, y mae geiriau fel hyn yn perthyn? Y maent yn golygu Bod, ond golygant fwy na Bod yn unig. Y mae careg yn bod; ond nis medr careg gyflenwi ystyr gyflawn y geiriau *Mi wyf*. Y mae i gareg hyd a lled a dyfnder, lliw a llun, &c., ansawdd, hanfod, sylwedd, &c.; ond ni fedr y gareg feddwl, nid oes ganddi ymwybyddiaeth, nis medr ddywedyd "Mi wyf." Nid oes ganddi yr un dychymyg am ei dechreuad, ei defnydd na'i thynged. Gall fod, yn wir y mae yn anfarwol, neu yn hytrach mae yn anninystriol—nid mewn ffurf ond mewn sylwedd; nis dichon ei gronynau ddarfod, na diflanu, na myned dim yn llai.

Y gareg y soniwyd am dani yn Ymofynydd Ionawr, 1904, fel y dywedwyd, nid aeth hi erioed drwy y ffenestr o honi ei hunan, ddim erioed heb help rhywun a fedrai'r *Mi wyf;* a phan gododd John Jones hi a'i dodi ar y bwrdd, disgwyliai ei chael hi yno dranoeth. Dysg Syr Isaac Newton ni fod un o "Ddeddfau Symud" yn gyfryw fel nad oes gan gareg y gallu o honi ei hun i gyffro o'r fan lle dodir hi. Erys y gareg yr un hefyd i bob ymddangosiad drwy'r blynyddoedd, heb fyned dim yn fwy na dim yn llai. Sylwer ar y gwahaniaeth rhwng y gareg a'r *Goeden* Y mae yna liw a llun a maint, &c. yn perthyn i'r goeden; ond y mae yna rywbeth ychwanegol. Gwir fod Tyndall yn dál y ceid fod yr holl ynïau (*the promise and potency of all that is*) mewn mater, ïe, yn y niwl ar gopäau yr Alpau; a dywedodd Carnegie, y miliwnydd enwog, yn ei anerchiad yn Barrow, o flaen yr *Iron and Steel Institute* (Medi 3, 1903) ei fod ef yn gweled mwy a mwy o hyd o'r dirgelwch mawr mewn dûr. Yr oedd yn barod i gredu fod enaid mewn dûr. Wel, wel, os felly, mae'n rhyfedd iawn. Nid awn i amheu na dadleu; ond i lygad cyffredin nid yw'r gareg ond mater marw. Defnydd anorganaidd a difywyd yw. Perthyn y goeden i fyd arall. Tyf. Nid yw yn para yr un

fath o hyd. Cymer ati ddefnyddiau ffres; ychwanega at ei maint, &c. yn barhaus. Y mae yna ddirgelwch yn y gareg, mae'n wir, ond y mae'n llawer mwy awgrymiadol yn y goeden.

Eto, os cymharwn ni y goeden â'r *Ci*, cawn weled ein bod mewn cyffyrddiad â byd arall drachefn. Perthyn bywyd i'r goeden a'r ci yn gyffelyb, a chawn y ddau yn myned trwy gyfnewidiadau pwysig. Dirgelwch mawr yw bywyd. Nid oes neb hyd yma wedi gallu ateb yr holeb, Beth yw Bywyd? Dichon hedyn a gronyn o dywod ymddangos yn debyg i'w gilydd; ond gosoder y ddau yn y pridd ar ddechreu'r gwanwyn a cheir na fydd y naill ond tywodyn noeth ar ddiwedd yr haf, tra bydd y llall wedi myned trwy gyfnewidiadau pwysig. Nid hir y bydd yr hedyn yn ei wely pridd cyn dangos fod iddo berthynas neilduol â'r byd allanol,

"Ei frig a yrr i'r nen, ei wraidd i'r ddaear."

Cymer ato ddefnyddiau o'r awyr ac o'r pridd, y gwres a'r gwlybaniaeth—*carbon, hydrogen, oxygen, nitrogen*—ac yn raddol amlyga bresenoldeb y Dirgelwch hwnw nad yw'r fferyllydd byth yn dyfod o hyd iddo—y peth rhyfedd hwnw sydd yn peri'r gwahaniaeth rhwng y naill hedyn a'r llall, y naill lysieuyn a'r llall, ïe'n wir rhwng y goeden â'r ci hefyd.

Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y goeden â'r ci, ond ni ddaw fawr o hono os dim i'r golwg yn nhawddlestr y fferyllydd. Medr y ci godi a cherdded. Nis gallwn ddychymygu careg neu goeden yn codi ac yn cerdded. Byddai'n groes i bob disgwyliad. Nis medr yr un o honynt symud o'r fan. Sut mae hyn yn bod? Beth ydyw y gallu dirgel rhyfeddol hwn? Cwyd y ci pan y myn. Dyna'r gair—*y myn.* Beth yw'r "myn" yna a berthyn i'r ci yn wahanol i'r goeden? Dywed hen driawd Cymreig fel hyn,

"Tri phrif ynïau'r enaid—serch, deall a myn."

Enaid dyn wrth gwrs olygir. Ceir arwyddion o'r tri yn y ci; ond yn y dyn yn unig y ceir hwy yn eu cyflawnder. Hen driawd arall a ddywed—

"Tri phrif dremynt corfforol dyn—gweled, clywed a theimlo;"

A cheir y tri hyn hefyd yn perthyn i'r ci. Eto ein cred yw fod y Dyn yn perthyn i fyd arall drachefn a byd uwch na'r ci. Dyn yn unig a fedr ddywedyd "Mi wyf." Ni fedr y ci hyny. Gall y ci symud pan y myn, megys hefyd y gall dyn; hyny yw y mae gan y ddau—*Ewyllys*. Gall y ddau feddwl hefyd; ond o'r gwahaniaeth! Gall y ci feddwl am ei feistr ac am ei giniaw, Gall feddwl am bethau; ond ni fedr feddwl am ei *feddyliau*. Ni fedr gyfansoddi llyfr, na darllen penod na chanu cân, na sylweddoli ystyr y geiriau bychain—"Mi wn."

T.C.U.

NYTH Y FRAN.

Sylwasom o'r "Nyth" y tro o'r blaen ar ddau o brif nodau gweinidogaeth Mr. Armstrong yn Nottingham, sef y rhan gymerodd ef i ail-adeiladu Capel yr *High Pavement*, a'r ddadl hanesyddol fu rhyngddo a'r enwog Charles Bradlaugh. Cynhwys y trydydd pen yr hyn a wnaeth trwy y pwlpud, trwy y wasg, ac fel diwygiwr gwleidyddol a chymdeithasol. Nid ydym yn synu at ei ymgysegriad trylwyr i waith ei eglwys ei hun trwy bregethu ac ysgrifenu; ond gofyna egni a phenderfyniad y gwron i ymyru fel y gwnaeth ef yn Nottingham a Liverpool a chwestiynau cymdeithasol a gwleidyddol, i osod ei wyneb fel *flint* yn erbyn drygau poblogaidd a ategir ar un llaw gan drachwant elw, ac ar y llaw arall gan drachwant blys. Yr oedd yn elyn anghymodlawn i'r fasnach feddwol. Gwelai mai hwn oedd y rhwystr mwyaf ar ffordd cynydd a hawddfyd dynion, yn neillduol yn y trefydd mawr. A bu ei weinidogaeth yn neillduol yn Lerpwl yn ymdrech hir, ac i raddau pell, llwyddianus yn erbyn y drwg hwn. Nid ydym yn amheu na roddodd y ddadl a Bradlaugh, a'r rhan anrhydeddus a gymerodd ef ynddi, safle fanteisiol iddo fel dyn cyhoeddus. O'r adeg hono daeth yn adnabyddus, a chymerodd ei le yn esmwyth gyda Charles Beard, H. W. Crosskey ac eraill yn rhestr flaenaf gweinidogion Undodaidd y cyfnod. Fel yr awgrymwyd nid oedd gyrfa arferol y pregethwr a'r gweinidog—ei wasanaeth reolaidd ar y Sul a'i ymweliadau a phobl ei ofal yn ystod yr wythnos—yn dyfod i fyny a gofynion y cyfrifoldeb a osodai drygau a llygredigaethau gwaeddfawr y dref ar ei galon. Teimlai fod dyledswydd yn galw arno i ddefnyddio ei holl ddylanwad fel *force* cymdeithasol, yn y pwlpud ac allan o'r pwlpud; ac fel y *step* gyntaf ymdrechodd dderchafu tôn foesol y blaid Ryddfrydig ac yn neillduol i wneud gwleidyddiaeth leol y Cynghor Trefol, Bwrdd y Gwarcheidwaid a'r Bwrdd Ysgol yn fwy pur ac effeithiol. Gwnaeth ei ymosodiadau diarbed ar anghymedroldeb, aflendid cymdeithasol, llwgrwobrwyaeth a drygau eraill, ydynt yn bla ar y wlad yn yr oes hon effaith neillduol ar farn y cyhoedd. Enillodd yntau y wobr sydd fynychaf yn dyfod i ran y proffwyd a'r diwygiwr. Trodd hen gyfeillion eu cefnau arno, gan mor galed oedd yr ymadrodd; ymddangosodd seti gweigion yn y capel, i gael eu llanw wedi'n, ond odid, gan rai mwy cyd-

naws, a mwy parod i dderbyn "baich gair yr Arglwydd." Wn i ddim a oedd yn bosibl i Ryddfrydwr trwyadl a Radicalaidd fel y bu Mr. Armstrong trwy ei oes, gael lle esmwyth fel gweinidog i gynulleidfa *respectable* o Undodiaid yn Lloegr. 'Rwy'n lled dybied nad oedd, a barnu oddiwrth dôn a chynhwys ein papyrau enwadol o bryd i bryd. O'm rhan fy hun, nis gallaf ddyweyd fy mod i erioed wedi deall safle wleidyddol y dosparth lluosocaf o'n cydgrefyddwyr Saesneg. Mae'n ddirgelwch i mi sut mae cymaint o honynt yn erbyn Dadgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys, ac yn mynwesu ryw freuddwyd dwl am adeg yn y dyfodol pell pan y daw allan o dryblith yr Eglwys yn y dyddiau presenol rywbeth o dan gysgod y wladwriaeth fydd yn bur fel yr haul, ac yn ddigon mawr ac eang i gofleidio pawb yn un frawdoliaeth. Peth nas gallaf fi esponio yw fod yr amryfusedd hwn yn bodoli—aelodau Undodaidd yn Nhŷ y Cyffredin a rhan a chyfran ganddynt yn y Ddeddf Addysg ddiweddaf sydd yn gwneud cam mor ddybryd ag Ymneilldŵyr ac wedi creu cymaint o anfoddlonrwydd a chynhwrf trwy'r wlad. Nid yw hyn ond engraifft o lawer o bethau eraill sydd yn aros yn ddirgelwch i mi. Ond yr oedd Mr. Armstrong yn arweinydd ag oedd yn bosibl i Radical Cymreig ei ddeall. O braidd na fyddai yn barod i dderbyn rhaglen wleidyddol Mr. Lloyd George yn ei chyfanrwydd. Yr oedd yn ddadgysylltwr o ran addysg ac argyhoeddiad; gwrthwynebodd y rhyfel yn South Affrica a'i holl egni; ac yn ddiamheu y buasai yn barod i fyned mor bell a Mr. Lloyd George ei hun yn ei wrthdystiad yn erbyn Deddf newydd Addysg.

Gyda syniadau clir a phenderfynol fel gwleidyddwr, gyda sêl danbaid ac aiddgarwch diflino y diwygiwr cymdeithasol, gyda gweledigaeth clir y prophwyd i ddyfnder anghenion ei oes, a chyda phersonoliaeth a chymeriad wedi eu cyfnerthu a'u derchafu gan ei weinidogaeth lafurus a ffrwythlawn yn Nottingham, dechreuodd Mr. Armstrong ei waith yn Lerpwl yn Ebrill, 1884, pan yn un a deugain oed. Yr oedd ganddo yrfa o ugain mlynedd o'i flaen fel gweinidog i Capel Hope Street, a gwaith anhawdd fyddai gwneud cyfiawnder â blynyddoedd a nodweddid gan gymaint o frwdfrydedd a gweithgarwch. Mewn ffordd, eglwys James Martineau oedd yn parhau i ddyfod yn nghyd yn Hope Street, gan mor anhawdd oedd dadgysylltu ei bersonoliaeth ef oddiwrthi. Bu yn weinidog arni am 25 o flynyddau, ac efe a gymerodd y rhan flaenaf i adeiladu y deml brydferth a erys am oesau yn deyrnged i'w goffadwriaeth. Yr oedd delw Martineau yn barod wedi argraphu ei hun yn ddwfn ar feddwl a chymeriad ei ddisgybl mwyaf ffyddlon, ac yn awyrgylch gysegredig Capel Hope Street gallwn ddisgwyl y byddai y disgybl ar ei oreu; ac y byddai ei weinidogaeth yn deilwng o'r athraw y teimlai dan gymaint o rwymau iddo—yn alluog, yn llafurus ac yn onest. Yn Ebrill, 1885, yn nghyfarfodydd y Gynhadledd Dairblynyddol yn Birmingham y cefais y fraint o glywed Mr. Armstrong y tro cyntaf, ac fel y profodd hefyd y tro diweddaf. Efe oedd i bregethu *y bregeth* ar yr adeg hono, a chofiaf yn dda yr olygfa yn y *Town Hall*. Yr oedd cynulleidfa luosog yn llanw y neuadd eang—o bymtheg cant i ddwy fil o bobl; ac yn eu plith yr oedd nifer fawr o bregethwyr—dosparth anhawddaf o bawb i enill eu cydymdeimlad a'u boddloni. Rhaid cyfaddef fod fy nisgwyliadau am bregethwr y dydd yn uchel. Nid oedd amheuaeth genyf gyda golwg ar werth llenyddol y bregeth fel cyfansoddiad na'i chymhwysder ar gyfer yr achlysur oedd wedi galw am ei thraddodiad. Yr oeddwn yn rhy gyfarwydd a gweithiau Mr. Armstrong i feddwl y buasai un diffyg yn y cyfeiriad hwn, ac nid oedd chwaith. Yr oedd y bregeth yn gampwaith—gormod felly i fod yn bregeth effeithiol i gynulliad

poblogaidd. O bosibl nad oedd ansawdd y bregeth yn cael ei adlewyrchu ar y traddodiad. O leiaf cefais fy siomi yn y traddodiad. 'Doedd yno ddim o'r myn'd a'r trydan ellid ddisgwyl oddiwrth bregethwr sydd wedi ei feddianu gan ei bwnc. 'Rwyf fi yn priodoli y diffyg i raddau pell i'r ffaith fod Mr. Armstrong yn caethiwo ei hun yn ormodol i'w bregeth ysgrifenedig. A glywodd rhai o'n darllenwyr y Parch. John Davies, Alltyplacca yn pregethu o bapur? Digwydd hyny weithiau, nis gwyddom pa'm; ond gallwch benderfynu mai nid Davies Alltyplacca, nid y Davies a bregethai yn Panteg yr Hydref diweddaf, sydd wrthi y pryd hwnw; ond ryw adlais gwan, anaturiol, o'r hyawdledd ysgubol sydd yn meddianu y pregethwr hwn pan nad oes dim ond Beibl ac anialwch o eneidiau o'i flaen. Os clywsoch chwi Davies, Alltyplacca erioed yn pregethu o bapyr, ac nid o'i frest, fel y dywedir, bydd genych ryw syniad am ddull Mr. Armstrong o draddodi.

'Rwyf wedi synu weithiau paham yr oedd Dr. Martineau bob amser yn pregethu o bapur. Clywais ef rai ugeiniau o weithiau, a theimlwn fod diffyg yn rhywle; ac yr oedd y diffyg hwnw bob amser yn absenol pan y clywn ef yn siarad heb bapyr o gwbl. Cefais y fraint o'i glywed amryw weithiau mewn *Debating Society*, yn siarad yn rhydd o dan gynhyrfiad y foment, ac erys y darlun yn anileadwy yn ystafelloedd fy nghof hyd y dydd heddyw, pan mae argraffiadau y bregeth mwy ffurfiol yn Little Portland Street wedi myned i golli. Darllenais am y Parch. Dr. John Hunter, y gweinidog enwog Cynulleidfaol, ei fod unwaith wedi trafaelu yn groes i Lundain er mwyn clywed Dr. Martineau yn areithio. Digwyddai fod yn gadeirydd cylchwyl flynyddol un o'r cenhadaethau cartrefol a gynhelir gan eglwysi Undodaidd y brifddinas. Siaradodd *off-hand* fel cadeirydd y cyfarfod, a thystiolaeth Dr. Hunter oedd na chlywodd e' erioed y fath araith na'r fath areithiwr. Y desgrifiad goreu allai efe feddwl am dano oedd ei fod yn siarad fel angel. Nid ydym yn amheu o gwbl. Yr oedd yr elfenau yno yn eu cyflawnder—presenoldeb rhyfeddol na welwch ei debyg mewn canrif, meistrolaeth anherfynol ar iaith, a hono y mwyaf prydferth a dillyn, adnoddau diderfyn yr athrylith mwyaf cwrteithiedig, ac ar y tro hwnw, bwnc a apeliai ato—"Neges y cenhadwr Cristionogol at dlodion Llundain"—a wnelai ei deimladau yn eirias gan dân ysprydoliaeth. Yr oedd Dr. Hunter wedi bod yn dyst o un o gyflawniadau mawrion un o ddynion mwyaf Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond wedi'n rhaid i ni gofio pe buasai Dr. Martineau yn arfer pregethu heb bapyr, fe fuasai yna berygl colli yr "*Endeavours*" a'r "*Hours of Thought*," o lenyddiaeth y byd, ac y buasai dylanwad y pregethau rhyfedd hyny yn gyfyngedig i ychydig mewn un genhedlaeth. Teimlaf fy mod wedi crwydro yn mhell oddiwrth y pwnc er fod y cyfeiriad at Dr. Martineau yn amserol yn Ebrill, 1905; a sychaf fy ysgrifell gyda dweyd yn unig fod gweinidogaeth Mr. Armstrong yn Hope Street wedi bod yn deilwng o'i ragflaenydd. Llywodraethid y ddau gan yr un *ideals*; yr oedd eu hefrydiaethau ar yr un llinellau, nodweddid hwy gan yr un cydwybodolrwydd, a chafodd y ddau y fraint anmhrisiadwy o gysegru galluoedd goruchel i wasanaeth Duw a dyn.

NADOLIG YN YR ALMAEN.

(Parhad o Rifyn Mawrth).

Wedi i Gristionogaeth ddyfod yn elfen lywodraethol yn nghrefydd y wlad gwnaed i ffwrdd a'r aberthau gwaedlyd, ond yn eu lle daeth yn arferiad fod y pobwyr yn gwneyd efelychiadau mewn toes o'r anifeiliaid dewisol fel aberthau, sef y mochyn, yr ysgyfarnog, a'r carw. Aeth eu hystyr fel aberthau yn raddol i golli a daethant i fod yn bwysig yn unig fel math o deisen Nadolig i'r plant ac eraill. Dywedais eisoes fod yr hen Germaniaid yn cadw yr amser o haner Rhagfyr hyd yr 6ed o Ionawr yn sanctaidd i'r haulddu w ; ac yn mhlith pobl y wlad gwelir olion yr arferiad hwn hyd yn nod heddyw, ond yn lle cadw tair wythnos cyfyngant hwy yr amser i wythnos, o Nadolig i'r Calan, pan y dylai dyn ac anifail orphwys oddiwrth eu llafur a'u lludded. Yn yr amser yma ni wneir dim gwaith yn eu plith ond yr hyn sydd raid ei wneyd. Ni chlywir swn y cerbyd ar yr heol na'r rhod nyddu yn y ty, ac ant mor bell a chredu na fyddai ymyraeth a hwy yn rhydd oddiwrth gosp. Dychymygant am yr haul fel nyddwraig hollalluog sydd yn gwau gwisg natur o'r newydd bob blwyddyn ac ar yr adeg yma yn gorphwys oddiwrth ei gwaith ; felly dylai dyn ddilyn ei esiampl. Nid ydys nac yn golchi nac yn crasu bara nac yn nyddu yn ystod y dyddiau hyn, a gwae'r wraig neu'r ferch ddioglyd a fydd wedi esgeuluso gwneud y pethau yma cyn y Nadolig ac a geisia eu gwneud yn awr ; mae gyda hi i ymwneyd a Madame Wustan neu Mrs. Holle, (rhyw fath o dduwies leol Germanaidd yn cyfateb yn agos i *Mother Carey* yn Saesneg. Cedwir y da yn y beudy a'r ceffylau yn yr ystabl, ac ni ddisgwylir ond y gofal mwyaf angenrheidiol am danynt oddiwrth y gwasanaethyddion. Gelwir y dyddiau hyn yn ddyddiau segura. Dilyna'r melinydd yntau yr arferiad, cymer ei hamdden, a gollwng i'r felin aros yn llonydd. Mor bell mae y meddylddrych o orphwys, o lonyddwch wedi cael gafael ar feddyliau'r bobl, fel y dywedir fod hyd yn nod yr amser yn aros ; am hyny ni chyfrifid y dyddiau hyn, ond gelwid hwy yn ddyddiau "rhwng y blynyddau" ; oblegid i lawr hyd y 15fed ganrif dechreuid y flwyddyn newydd gyda gwyl y Nadolig yn yr Almaen, dim ond yn ddiweddarach y daeth yr arferiad i rym i daflu dechreu'r flwyddyn wythnos yn hwy.

Mae y dyddiau hyn hefyd, gyda bod yn amser o orphwys, yn amser o lawenydd, o ddigrifwch, ac o bleser. Amlygir hyn mewn arferiad nad yw mor gyffredin yma yn Marburg ag mewn rhai rhanbarthau eraill o'r wlad yn enwedig y rhan ogleddol o honi. Mae a fyno hwn a'r arferiad arall y soniais am dani eisoes o roi a derbyn anrhegion ar adeg Nadolig. Yn lle rhoddi eu hanrhegion yn dawel a didwrw ar y bwrdd, agora'r gwahoddedigion ddrysau yr ystafell, lle byddo'r cwmni wedi ymgasglu, led y pen, a thaflant eu anrhegion nerth eu breichiau yn bendramwngl i mewn i'r ystafell. Dangosir y digrifwch a'r rhialtwch yn enwedig tua diwedd yr hen flwyddyn, a chyrhaeddant eu heithafbwynt ar y dydd diweddaf oll. Ar y diwrnod hwn casgl ieuenctyd yr ardal, y merched a'r bechgyn ieuainc at eu gilydd i'r pentref neu'r dref agosaf. Huriant ystafell gyhoeddus mewn ty tafarn, dawnsiant a chanant ac wrth gwrs yfant mor dawel a diofal a'r dydd yn hir ; mwynhant eu hunain i'r eithaf a phenderfynant gael o leiaf un dydd dedwydd yn y flwyddyn. Dyma y modd y dathla y gwladwr dyfodiad y flwyddyn newydd, ond ni fyn y trefwr *respectable* wybod dim am y ffordd yma ; mae ganddo ef ei ffordd ei hun. Gwahodda ychydig o'i gyfeillion i ddod i gadw cwmni iddo ef a'i deulu ar y noson olaf o'r hen flwyddyn ; eistedda'r cwmni o amgylch y bwrdd gan ddifyru eu hunain mewn amryw ffyrdd, canu

neu siarad, &c., a phob un a'i lasied *punch* o'i flaen ; cyn gynted ag y clywir yr awrlais yn taro deuddeg a chlychau yr eglwys yn dechreu canu, dyma bob un yn codi ei làs, yn yfed iechyd da a llwyddiant ei gyfeillion yn y flwyddyn newydd, ac ar yr un pryd yn gwaeddi "Blwyddyn Newydd dda."

Chwareuai y gwallt ran bwysig iawn yn yr hen amser yn mhlith y Germaniaid. Cyfrifid ef fel coron y nerth a'r bywyd dynol. Dynodai gwallt hir gyflawnder bywyd ac iechyd , 'roedd pen wedi ei eillio ar y llaw arall yn arwydd o'r tristwch mwyaf neu o gaethwasiaeth, tra yr oedd pen moel yn destyn gwawd cyffredinol. Aberthai yr hen Ellmyniaid hefyd eu gwallt i'r duwiau ar achlysur rhyw addunedau neillduol, ond gofalent beidio *tynu* dim o'r gwallt ar unrhyw gyfrif am y cyfrifent hyny yn arwydd o'r galar a'r gofid gwaethaf. Ïe, dodent hyd yn nod blethau o wallt, neu yn hytrach rhyw ffurf o fara ar lun pleth wallt, ar feddau y meirw, yn nghyd a mathau eraill o fwyd a diod hefyd. Ni wneir hyn bellach, ond mae'r arferiad wedi gadael ei ol ar y modd y dethlir y flwyddyn newydd. Crasa pobwyr Marburg heddyw ganoedd lawer a miloedd o ran hyny, o deisenau yn y ffurf o bleth wallt yn y canol gydag un *stripyn* bob ochr yn ystod yr wythnos rhwng y Nadolig a'r Calan ; a dyma bron yr unig fath o fara a gresir yr wythnos hono. Yn Eglwys Sant Elisabeth yma ar un o ddrysau yr allor gellir gweled darlun o'r Santes ei hun yn dal yn ei llaw un o'r torthau hyn yn gywir yr un ffurf ag sydd yn gyffredin heddyw , ac adeiladwyd yr eglwys hon yn y 13eg ganrif. Danfona pob pobydd i'w gwsmeriaid ar ddechreu blwyddyn un o'r teisenau yma, er mwyn dangos iddynt ei fod yn dymuno nerth a bywyd newydd iddynt yn nghyd a phob llwyddiant.

Yn y mater o gardiau Nadolig a'r flwyddyn newydd mae'r pwysigrwydd cymharol roddir iddynt yma yn wahanol i'r hyn roddir iddynt yn Lloegr a Chymru. Yno cerdynau Nadolig sydd yn cael y lle blaenaf, ond yma ni ddanfonir ond cymharol ychydig o honynt, tra o gardiau y flwyddyn newydd fe ddanfonir wmredd anarferol. Mae gan y llythyrgludwyr ddigon o waith am ddau ddiwrnod bron i'w dosbarthu, ac hyd yn nod wedi'n rhaid iddynt gael cynorthwy cynifer o'r milwyr sydd yn gyfarwydd a'r gwaith. Ar y cyfan gellir dweyd nad oes cymaint o wledda yma ag yn Mhrydain ar adeg y Nadolig. Ni wyddis ddim am y twrci fel aderyn dewisol y wledd, ac anaml y clywir son am wydd yn ffurfio rhan o'r ginio Nadolig, ac mae y *plum pudding* yn tynu sylw trwy ei habsenoldeb. Clywir mwy o son am y pethau hyn fel y mae John Bull yn hoff o honynt, nag a welir o honynt yn addurno byrddau pobl Marburg. Am y mathau o gig sydd yn cael y lle mwyaf pwysig yma y Nadolig nis gwn ryw lawer, ond credaf mai'r mochyn, yr ysgyfarnog, a'r llo sydd fwyaf cyffredin. Erbyn Nadolig cresir teisenau *currants* hirion (dyma ffurf y bara fel rheol yma), lawer o honynt dros haner llath o hyd ; ac mae'n arferiad i roddi un gyfan o'r rhai hyn i bob aelod o'r teulu, iddo gael ei bwyta pan fyddo'n dewis.

Nid yw'r arferiad o grynhoi calenig sydd mor gyffredin yn Sir Aberteifi yn wybyddus yma ; beth bynag nid yw yn wybyddus ar ddydd Calan na'r dydd cyn hyny. Ond y mae gan blant Marburg hefyd un dydd, neu yn hytrach un hwyr, pan y gallant fyned oddiamgylch y tai ac yn enwedig siopau'r dref i ofyn am ewyllys da eu perchenogion, a'r dydd hwn yw y 6ed o Rhagfyr. Cyfyngir y ffafr hon, er hyny, i'r hwyr, ac i blant y tlodion fel rheol, y rhai a ant oddiamgylch gyda *mask's* am eu gwynebau ac wedi gwisgo yn y fath fodd fel ag i guddio eu hunigoliaeth. Deallaf mai croesaw *scant* gânt gan y rhan mwyaf. Y 6ed o Ragfyr hefyd yw dydd y *Knecht Ruprecht* sydd yn cyfateb bron yn gyfangwbl, ond yn amser ei ddyfodiad, i'r *Father Christmas* neu'r *Santa Claus* Saesneg-

Cymer yn gywir yr un ffurf gyda'i farf wen hir fawr, y sach a'r anrhegion ar ei gefn, ei fastwn praff yn ei law a'i het a'i ddillad yn awgrymu eu bod wedi gweled dyddiau gwell. Mawr yw y disgwyl am dano sydd ymhlith y plant a mawr yw yr ymdrech sydd i fod yn blant da am ychydig ddyddiau cyn ei ddyfodiad. Pan y daw, dwg gydag ef gnau ac afalau a phethau cyffelyb i'r plant da, ond gwialen fedw i'r rhai drygionus. Gofyna mewn llais oeraidd ac annaturiol i'r plant a ydynt wedi bod yn blant da, ac a allant weddio, ac yna ceisia ganddynt ddweyd eu paderau ; os deuant trwy y profion yma yn ddiogel cânt eu gwobrwyo gyda'r cnau, yr afalau, &c., ac achuba hyd yn nod y rhai drwg y wialen fynychaf a'r unig gosp roddir arnynt yw eu hamddifadu o'r danteithion, a'r ofn naturiol a'u meddiana yn mhresenoldeb y *Knecht Ruprecht.* Mewn gwirionedd nid yw ef yn ddim arall ond rhyw frawd hynaf i'r plant, neu feallai eu tad, wedi gwisgo i fyny. Mewn rhai ardaloedd daw y *Knecht Ruprecht* yn nes i Nadolig ac fel cydymaith a chynorthwyydd y *Christkind.*

Cyn terfynu, mae'n bosibl y bydd o ddyddordeb i'r darllenydd ddeall ein bod yn awr yn agos i 20 o "Saeson" yma (oblegid "Saeson" yw pawb yma sydd yn siarad Saesneg, oddieithr yr Americaniaid), o'r rhai y mae pedwar yn Gymry. Penderfynwyd genym i ddathlu gwyl y Nadolig trwy ginio gyffredinol yn un o westtai'r dref ; trodd allan yn llwyddianus iawn. Ymhlith llawer o ganu ar ol cinio rhoddwyd "Hen Wlad fy Nhadau" gan y pedwar Cymro. Cymru am byth ! !

MYFYRIWR.

ADOLYGIADAU.

NATUR DYN A'I DYNGED. *

Y diweddar Brifathraw Thomas Charles Edwards, onide, ddywedodd unwaith fod llong yr enwad yn cario gormod o falast, ac y byddai er diogelwch a hwylusdod i'r llong pe teflid peth o hono allan. Nid Mr. Edwards yw'r unig bregethwr ac nid ei enwad yw yr unig enwad sydd yn dal syniad cyffelyb ; er y byddai yn berygl wrth bob tebyg i neb llai anturio dywedyd hyny. Y mae'n druenus meddwl fod dyn yn parhau i gael ei gaethiwo yn siaced gyfyng credoau sydd wedi eu gordyfu ganddo er ys oesau lawer, ac y mae'n hyfryd gweled arwyddion fod y wawr yn tori ac arwyddion yn ymddangos fod yr hen didau tynion i raddau yn llacau. Y mae Mr. James wedi cyrhaedd yr oedran a'r profiad a'r safle yn yr enwad fel y gall ysgrifenu beth fyno a theimlo ar yr un pryd yn sicr y caiff o leiaf dderbyniad parchus. Yr holiad naturiol gan bawb yn awr yw, nid beth ddywed y gredo a'r gyffes ffydd, ond beth sydd wir ? Nad pa wirionedd bynag ddichon fod yn y Pump Pwnc, nid

* "*Spiritual Life, the Goal of Nature,*" Davies Lecture, 1903 ; pris 3s. 6c I'w gael gan yr awdwr, y Parch. Wm. James, Bethania, Aberdar

oes eisiau eu gwneuthur yn faich y pregethu heddyw. Rhaid wrth yr ymarferol heddyw — rhywbeth yn cyffwrdd yn agos, agos â bywyd dyddiol dyn. Nid ystyrir uniondeb o ddim gwerth ond mor bell ag y bydd yn unioni buchedd. Pwnc Mr. James yw Bywyd Ysprydol, nôd ymgyfeiriad natur. Daw llawer o faterion pwysig dan sylw, ac fe'u trinir oll mewn modd deheuig a dyddorol ddigon. Yn Saesneg y mae'r llyfr, ond fe'i ceir gan y Cymro cyfarwydd yn Saesneg swynol yn ei lithrigrwydd a goleulawn yn ei fater. Dyma ddyfyniad i ddangos yr yspryd yn yr hwn y mae Mr. James wedi ymgymeryd â'i bwnc :—"Dichon y bydd yn rhaid i'n syniadau amrwd ni yn nghylch ysprydoliaeth y Beibl a'i gynwys fyn'd; y mae llawer o honynt wedi myn'd o fewn cof rhai heddyw'n fyw. Cyn diwedd y ganrif ceir gweled llu eto'n canlyn; ond erys ysprydoliaeth ddwyfol, ac erys y Beibl ei hunan hefyd. Gall llawer o'n meddyliau mwyaf anwyl ni wywo fel y glaswelltyn, ond Gair yr Arglwydd a erys yn dragywydd, a hwn ydyw Gair y newyddion da a bregethwyd i ni." — (Tudalen 32). Dylai'r llyfr gael lle yn llyfrgell pob capel.

T.C.U.

"UWCHAFIAETH YR IESU." *

Mae Cymdeithas Undodaidd America wedi cyhoeddi llyfr o eiddo Dr. Crooker ar "Uwchafiaeth yr Iesu." Byddai cipdrem ar rai o syniadau un o'r bobl fwyaf deallgar a chraffus yn America ar y cwestiwn uchod yn foddhaus feallai i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Cymerwn deitlau pum penod y llyfr i awgrymu ychydig o sylwadau.

1. *Lle Iesu mewn Hanes.* Enw Iesu yw y mwyaf pwysig mewn hanes. Nid oes un enw arall yn meddu ar y fath ddylanwad sanctaidd a thrawsffurfiol ar feddyliau a theimladau dynion. Mae celf a dysg yn cael eu hysprydoli gan Iesu. Mae gwareiddiad a blaenfynediad, er yn gynhenid yn y natur ddynol, yn cael eu bedyddio yn ei enw. Darfu i Socrates greu mudiad newydd yn nhiriogaeth rheswm a deall. Ond nid oes un eglwys wedi cysegru ei enw mewn emyn a gweddi, tra mae'r prophwyd o Nazareth yn aros yn nghalon yr hil ddynol fel cyfaill anwyl sydd yn ysprydoli mewn awr o gyfyngder. Mae gan Mahommed ganlynwyr ffyddlon; mae Confucius wedi enill parch; mae dynion yn efelychu Buddha, ond mae Iesu yn cael ei garu. Mae Iesu yn bresenoldeb personol sydd yn adeiladu ei hun yn mywydau dynion. Mae yma gymdeithas agos ac anwyl rhwng Iesu a'i ganlynwyr sydd yn esgor ar nerth ysprydol. Mae'r gwr rodiodd ar faesydd Galilea wedi ei dderbyn fel y cydymaith mwyaf agos a chariadus. Nid oes dim yn union fel hyn yn wir am un cymeriad arall mewn hanes. Beth sydd yn rhoddi y rhagoriaeth i'r Iesu? Nid ydyw tystio ei fod yn Dduw yn un esponiad. Dywed rhai mae ei weithredoedd nerthol sydd yn taenu eu gogoniant drosto. Dywed eraill fod ei ragoriaeth yn ymddibynu ar y ffaith fod ei waed yn lleddfu ffyrnigrwydd a digofaint Duw. Ei ddysgeidiaeth aruchel yn ol barn llawer sydd yn rhoddi pwysigrwydd iddo. "Ond mae dyn yn llawer mwy na'i eiriau," meddai John Morley, a barn Dr. Crooker yw fod nerth Iesu yn gorwedd nid yn yr hyn a *ddywedodd*, ond yn yr hyn *oedd*.

---

* "THE SUPREMACY OF JESUS." By Joseph Henry Crooker. Published by the American Unitarian Association. London: Philip Green, Essex Hall. 3s. pp. 186.

Tarddai ei allu o'i bersonoliaeth gyfoethog a godidog. Mae mawredd moesol yn dysglaerio, ac yn goleuo lleoedd tywyll fel haul tanllyd.

2. *Iesu a beirniadaeth yr Efengylau.* Mae gwir fyfyrwyr y Beibl yn gofyn am ffeithiau, ac yn sefyll o'r neilldu er mwyn i'r gwirionedd siarad. Ni fydd i grefydd fyth gael ei niweidio gan y gwirionedd. Nis gall un darganfyddiad droi o'r neilldu y "Gwynfydau." Rhaid parchu ffeithiau. Nid ydyw dywediadau ardderchog yr efengylau wedi eu bwriadu i fod yn llyffetheiriau ar y meddwl, ond yn danwydd ar allor y galon. Mae beirniadaeth Feiblaidd yn symud ymaith y chwedlau yn nghylch yr enedigaeth wyrthiol a'r adgyfodiad, ond wedi eu colli fel hanes, deuant yn ol fel barddoniaeth, ac enillant bwysigrwydd hanesyddol newydd. Dangosant y dylanwad ysprydol adawodd bywyd Iesu ar ei ganlynwyr cyntaf. Er ini golli cân yr angylion am ewyllys da ar y ddaear, enillwn y syniad ardderchog mai Iesu oedd yr athraw ddysgodd y byd i ganu y gân o heddwch ac ewyllys da. Er colli y syniad fod Iesu wedi ei eni yn oruwchnaturiol, enillir y ffaith mai dyma y ffordd y ceisiodd ei ganlynwyr egluro ysprydolrwydd ei fywyd. Mae seren Bethlehem yn gorfod myn'd, ond mae y ffaith yn aros fod y disgyblion cyntaf yn credu fod Iesu yn nef-anfonedig. Rhaid ydyw rhoddi fyny yr hen gred fod corff Iesu wedi codi o'r bedd ac wedi ymddangos i'w gyfeillion. Ond mae y ffaith a gredai y disgyblion mor gadarn fod Iesu wedi myned i fyny o'r byd tanddaearol, wedi cyfodi o feirw, ac yn fyw ar ddeheulaw Duw, yn tystiolaethu nid yn unig i fawredd ei gymeriad, ond hefyd i'w anfarwoldeb personol.

3. *Iesu oddiar safle newydd.* Yn y benod hon eglurir syniadau am Iesu fel un yn meddu gallu meddyliol yn mhell uwch y cyffredin, yn gymaint felly nes mae rhai o'i ddywediadau gyda llaw wedi dyfod yn reolau bywyd. Sylwir ar y syniad am Iesu yn eiriol yn y nef dros bechaduriaid, ond dangosa Dr. Crooker fod seiliau bywyd yn gorphwys ar foesoldeb ac nid ar aberth. Er enill iachawdwriaeth nid cymodi Duw sydd yn eisieu, ond ei gymeryd i fewn i'r enaid. Mae tynged yn ymddibynu ar y bywyd mewnol. Aberthodd Iesu ei hun er mwyn bendithio ereill, ond nid er mwyn lliniaru digofaint Duw, a galluogi y pechadur i ddianc rhag ei gosp. Nid "Crist marw" sydd genym, ond calon cariad sylweddol a ddengys y ffordd agored i galon Duw.

4. *Meistr y bywyd mewnol.* Darganfyddodd Iesu trwy brofiad allu dwyfol cariad, a hyn ydyw dirgelwch duwioldeb. Mae cymeriad yn ymagor o'r tufewn, a threfn y bywyd dwyfol ydyw tyfiant. Mae angen yr enaid yn fwy nac angen y corff. Rhaid ydyw boddloni newyn yr enaid am burdeb a chariad. Pwy bynag adfera galonau dynol, rhaid iddo wneud hyny a chariad ac nid ag aur. Mae bywyd newydd yn esgyn o gariad. Y newydd da gyhoeddodd Iesu i'r byd yw, mai ewyllys da ydyw teyrnas nefoedd. Mae yr eglwys wedi ymrafaelio llawer yn nghylch person yr Iesu. Mae wedi dweyd "Cred" lle y dywedodd ef "Gwna." Mae wedi dweyd "Ofna" lle y dywedodd ef "Câr." Mae wedi edrych yn guchiog ar y natur ddynol pan y gwenai yr Iesu arni. Mae wedi dysgu credoau lle y dysgodd yr Iesu foesoldeb. Mae dynoliaeth yn egwan a blin; gadewch i ni gael yr Iesu yn ol fel ein cyfaill, fel esiampl, fel athraw, ac fel un fedr ein hysprydoli.

5. *Awdurdod yr Iesu.* Mae awdurdod yn gynhenid ac organaidd yn y bydysawd. Mae yr ewyllys ddynol, er ei holl ryddid, o fewn cylch deddf hollalluog, yr hon ddeddf sydd gariad holl bresenol. Trwy awdurdod Duw mae'r bryniau a'r dyffrynoedd yn gwisgo eu tlysni, a'r afon droellog yn arllwys i'r mor. Trwy awdurdod mae'r ehedydd yn esgyn tua'r nef i ganu, a'r lili yn gwthio fyny ei gwefusau pur er eu cusanu

gan y gwlith a llewyrch yr haul. Mae awdurdod ddwyfol yn daenedig dros bob peth. Nid oes eisieu symud o'r man er canfod Duw. Ond mae Duw wedi arllwys ei hun yn benaf i ddynoliaeth; ac mae mwy o'r dwyfol mewn ambell ddyn na'i gilydd. Yn y dyn da sydd yn byw y ddeddf foesol mae y "Presenoldeb Dwyfol" yn aros. Mae llusern cariad yn enyn fflam sanctaidd yn y galon na ddiffydd byth. Mae awdurdod grefyddol y dylanwad cryfaf yn y byd, ac mae gan y Dyn o Nazareth awdurdod uwchaf a gallu creadigol yn y palas a'r bwthyn; a swydd awdurdod Iesu yw gwneyd dynion fel efe ei hun. Cyrhaedda yr amcan trwy ysprydoliaeth bersonol, a thrwy ddangos gallu y gwirionedd. Yr ydym yn derbyn Iesu fel awdurdod yn y bywyd moesol; os felly, dylem hefyd ei dderbyn fel awdurdod ar bethau ysprydol. Mae Iesu wedi dweyd fod Duw yn Dad ac fod yn bosibl i ddyn fyw mewn cyflawn undeb a'r Yspryd, a sylweddoli y gobaith am anfarwoldeb. Yr ydym yn cyrhaedd y daioni uwchaf yn y byd wrth rodio trwy ffydd yn y cariad dwyfol.

Dyna grynodeb o rai o'r syniadau a gynhwysir yn y llyfr ardderchog hwn. Mae wedi ei ysgrifenu oddiar safbwynt rhyddfrydig, eto mewn yspryd gwir grefyddol. Medda yr awdwr weledïad ysprydol clir, ac mae mewn perffaith gydymdeimlad ag yspryd ac addysgiadau y gwr o Nazareth. Dymunwn gyflwyno y llyfr yn wresog i sylw darllenwyr YR YMOFYNYDD, canys mae darllenïad o hono yn sicr o brofi yn nerth ac yn ysprydoliaeth.

J.T.

Y PARCH. JOHN JOSEPH GEORGE.

Gyda theimladau hiracthlawn yr ymgymeraf a'r gorchwyl prudd o ysgrifenu ychydig linellau er cof am hen gyfaill serchog, ffyddlawn a chymwynasgar iawn. Cychwynodd Mr. George a minau ar ein taith weinidogaethol yn Aberdar yn 1864, ac o fewn tri mis i'n gilydd. Yr oedd y Parch. E. W. Lloyd wedi dechreu yn 1857; ond cawsom y fraint a'r pleser o weithio gyda'n gilydd ein tri, law yn llaw, megys mewn undeb cariad a brawdgarwch am hir flynyddau. Collasom Mr. Lloyd Mehefin 1894, ac wele ni yn awr, Mawrth 10, wedi colli Mr. George—mewn henaint ac mewn parch, "fel y cyfyd ysgafn o ŷd yn ei amser." Ganwyd Mr. George, Mawrth 3, 1822; yr oedd felly wedi gadael ei 83 mlwydd oed. Cofiai yn dda am y llawenydd a'r rialtwch mewn cysylltiad a phasio y "*Reform Bill*, 1832.

Yr oedd Mr. George yn un o'r ail dô o fyfyrwyr a aeth i fewn i'r "Home Missionary College" yn Manchester, y pryd hwnw dan ofal y Dr. J. R. Beard a'r Parch. William Gaskell (priod Mrs. Gaskell y nofelydd enwog). Am y rhai hyn yr oedd ganddo y syniad uwchaf. Bu'n weinidog Highland Place, Aberdar o 1864 hyd 1882, pan y gorfuwyd cau y capel o herwydd anhawsderau arianol. Yn 1860 yr agorwyd ef gyntaf. Yr oedd yno gynulleidfa weithgar ond o bosibl ychydig yn rhy anturus. Talwyd am y capel; yna codwyd tŷ hardd a drudfawr i'r

gweinidog, a thalwyd am hwnw. Wedi hyny codwyd ysgoldy ond profodd y baich hwn yn rhy drwm. Fe ballodd yr help. Hyspysebwyd, ond i ddim pwrpas ; ac o herwydd yr anhawsdra i gyfarfod a'r gofynion, fe gauwyd y capel, ac ymneillodd Mr. George o'r weinidogaeth. Pan agorwyd ef drachefn—a'r oll yn rhydd o ddyled—yn 1888, dangosodd ein cyfaill barodrwydd ar unwaith i helpu ei hen eglwys, ac y mae ei deulu drwy y blynyddoedd wedi dangos ffyddlondeb diflino. Yn y cyfamser gyda'i deulu lluosog (dau fab a phedair merch) daeth baich bywyd i wasgu yn drwm, ond daliodd ati yn galonog a gweithiodd yn egniol, fel ysgolfeistr, is-olygydd un o'r papyrau lleol, gohebydd lleol cyntaf y *South Wales Daily News*, gohebydd y *Merthyr Express*, ysgrifenydd mygedol y *Nonconformist Association* (a helpodd Mr. Henry Richard i'r senedd) ; ysgrifenydd Trysorfa Gweddwon ac Amddifaid Ferndale, &c. Gwelir wrth hyn fod Mr. George wedi llanw lle mawr yn mywyd cyhoeddus plwyf Aberdar am ryw 20 mlynedd. Yr oedd yn ysgrifenydd cryf, clir, medrus, yn bregethwr da, yn draddodwr hapus, ac nis clywsom ei well yn darllen y gwersi, yn fugail gofalus, ac mewn parch cyffredin.

Dygodd ei blant i fyny yn anrhydeddus. Y mae Edward wedi graddio yn M.A. yn Rhydychen ac yn weinidog Undodaidd yn Swinton, Francis yn fferyllydd yn Nghaerdydd, Sophia a Gwenllian yn dal y swydd o brif athrawesau mewn ysgolion dan Gynghor Addysg Aberdar. Rhoddodd Alice swydd bwysig i fyny er mwyn gweini ar ei rhieni. Y mae'r ferch hynaf wedi marw er's rhai blynyddau. Claddwyd yn y Cemetery, R. J. J. yn gwasanaethu. Gwelsom yn yr angladd y Parchn. D. J. Williams, Simon Jones, J. P. Kane, a'r Parch. W. Harries (B.) Ffarwel gyfaill anwyl, dros enyd fach ; cyn hir deuwn ar dy ol, a dysgwyliwn gael adnewyddu'r hen gyfeillach.

R.J J

CYFFES YR EDIFEIRIOL.

Mesur "Dies Irae" y diweddar Dr. Joseph Parry.

'Rwy'n drist fy mron, yn wael fy llun,
A nghalon flin ar dori,
Dan bwys euogrwydd pechod prudd,
Fy enaid sydd ar soddi ;
O Dduw, rho imi esmwythâd,
A'r fraint o'th deimlo eto'n Dad,
O gariad yn rhagori.

Mi gefnais ar fy nghartref gynt,
Gan fyn'd ar hynt echryslon,
Hyd lwybrau dyrys fyd ar ol
Deniadau ffol afradlon ;
A'th beraidd lais i'm clyw a ddaeth,
A'r marw i fywyd eto aeth,
A gobaith yn ei galon.

Af eto 'nol i dŷ fy nhad—
O ! 'r cariad brofais yno—
A cheisio'r briwsion wnaf yn awr
Sydd ar y llawr yn syrthio ;
Ac O ! y wisg a'r fodrwy gron,
Y ddawns a'r wledd a'r cusan llon
A gaf yn gyfan gofio.

Yn ol, yn ol, ac at y ddor,
Oedd agor imi'n wastad ;
Yn ol at fwrdd y wledd i gael
Mwynhau haelioni cariad ;
Yn ol at galon Tad nad yw'n
Anghofio'i blentyn yn ei fyw,
Er gwaeled yw ei ddillad.

Trwy rin Dŷ gariad ceisiaist fi
O'th fwyn dosturi nefol,
Mewn cof Ti'm cedwaist drwy fy oes
Dan bob rhyw groes ddinystriol;
Dy eiddot fuais i erioed,
Ac atat 'nawr yr wyf am dd'od,
Can's gwn Dy fod yn rasol.

Rho imi ymborth nefol ryw,
Rho imi fyw fel Iesu,
A thyfu beunydd ar ei ben
A'i ddilyn fyth a'i garu;
Ac fel mae Crist yn eiddo Duw
R'wyf finau'n eiddo Crist, yn byw
O hyd i'w wasanaethu.

T.C.U.

MARWOLAETHAU.

CHWEFROR 22, ar ol hir gystudd, yn 60 mlwydd oed, Jane, anwyl briod David Davies, Caedabowen Cottage, Llanwenog. Cyflawnwyd y gwasanaeth crefyddol yn y ty gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan yr offeiriad. Yr oedd Mrs. Davies yn aelod ffyddlon o eglwys Alltyplaca, a gwnaeth ei goreu dros yr achos yn y lle tra y caniataodd ei hiechyd. Ymgysured ei phriod a'i phlant yn yr ystyriaeth ei bod eto yn nghofal y Tad goreu.

CHWEFROR 24, John Oswald Rees, mab bychan Mr. a Mrs. Evans, Cilgellisaf, Pencarreg, yn 8 mis oed. Claddwyd gweddillion y bychan yn mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Chwefror 24, yn 7 mlwydd oed, David, mab Mr. a Mrs. Evan Davies, Half Moon, Llandyssul. Plentyn ieuanc bywiog ac ar ei ben ei hun yn mhlith plant y pentref ydoedd Daddie. Enillai sylw a serch pawb, a hawdd oedd cyfrif am deimladau hiraethus ddydd ei angladd. Dioddefodd gystudd caled. Claddwyd ef y Llun canlynol yn mynwent capel Seion a gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas. Ymgysured y tad a'r fam a'r brawd sydd yn eu galar yn y gobeithion gwynfydedig.

CHWEFROR 28, yn 75 mlwydd, Mrs. Elizabeth Evans, 6, Charles St., Llandyssul. Claddwyd hi y Gwener canlynol yn Pantdefaid, y Parch. T. Lloyd Jones, B.A., B.D., Pencader, a'r gweinidog yn gwasanaethu. Gadawodd briod, merch ac wyres mewn galar ar ei hol.

MAWRTH 7, yn 57 oed, Martha Davies, Tyncornel, plwyf Llanwenog, ar ol amryw fisoedd o gystudd caled. Gadawodd un brawd, gyda'r hwn yr oedd yn byw yn y lle uchod, yn unig ac mewn galar dwys ar ei hol. Cydymdeimlir ag ef yn fawr yn ei drallod a'i golled. Ymgysured yn y gobaith nad yw'r ysgariad ond dros amser, ac yr ail-unir y gymdeithas yn amser da Duw. Dydd Sadwrn canlynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes gan dyrfa luosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

MAWRTH 8, yn 85 mlwydd oed, Anne Jones, Pencarniced. Y dydd Sadwrn claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Pantdefaid pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

MAWRTH 14, yn 85 oed, Hannah Evans, Charles St., Lladdyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus i gylch helaeth o hen fyfyrwyr ysgol Pontshan, oherwydd buasai llawer yn llettya yn y Caebach lle y trigianai yno. Ac ar ol iddi hi a'i phriod symud i Llandyssul yr oedd ysgolheigion Gwilym Marles ac eraill yn hoff o letya yn eu tŷ. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol yn Pantdefaid, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

CONGL GWYBODAETH GYFFREDINOL.

Ni ddaeth ond dau bapyr i law y mis hwn, sef eiddo "Melinydd" ac "Ap Glowon.," Diau fod y gofyniadau yn anhawddach na'r rhai ymddangosodd yn ddiweddar, ac am y rheswm hyny, o bosibl, ni ddaeth ond dau i law. Carem awgrymu i'r cystadleuwyr iddynt ysgrifenu ar un wyneb y papyr yn unig, ac i wneud hyny mor ddestlus ag sydd yn bosibl. "Ap Glowon" bia'r wobr y mis hwn. Danfoned ei enw priodol yn ddiymdroi. Danfonwyd llyfr dau swllt i Jenkin Samuel Davies, Post Office, Felinfach, yr hwn oedd y buddugol y mis diweddaf.

ATEBION I OFYNIADAU MIS MAWRTH :—

25.—D. Davis, Castell Hywel oedd y Bugail. Gwel "*Telyn Dewi*,"—"Ffarwel i'r Byd a'r Eglwys," 1778.

"Wrth fugeilio'n llencyn egwan,
Deutu wyth neu naw mlwydd oedran,
Ar y banc mewn rhedyn tewon
Rhwng y defaid a'r da duon,
Syrthiais gyntaf ar fy neulin," &c.

26.—Yr Archesgobion fu ar ymweliad â Chymru oeddent Baldwin, yn 1188; Benson yn 1885 a Temple yn 1902. (Gwel YMOFYNYDD 1902, t. 246.

27.—Ceisiwn ateb hwn rywbryd eto ar ei ben ei hun. Gofyna fwy o ofod nas gallwn hebgor y tro hwn.

28.—*Gwanwyn*—tymhor yr wŷn gweinion (?); *Haf*—yr un a "Ham" ac yn golygu Poethder; *Hydref* dybiwn yw'r tymhor y dygir ffrwyth y cynhauaf *i dref* (?); *Gauaf*—tarddiad yn amheus; feallai yn golygu y tymhor pellaf oddiwrth yr *haf*.

29.—Benthyg o Rufain yw'r enwau Cymreig ar ddyddiau'r wythnos. Sul a Llun yw haul a lleuad, enw duwies yw Gwener, ac enwau duwiau yw'r tri arall. Cymharer y Saesneg.

30.—*Nadolig*. Dydd *genedigaeth* tybiedig Iesu Grist. *Natalic* oedd ffurf hynach. *Calan* yw'r dydd cyntaf o bob mis. Cymharer Calan Ebrill. Llygriad yw o'r Lladin *Calendae*. *Gwyl Ddewi*, y cyntaf o Fawrth, gwyl goffa am Dewi Sant. (Gwel YMOFYNYDD 1889, t. 68.) *Pasg*, o'r Groeg *Pascha*, a hwnw o'r Hebraeg *Pesach* a'i ystyr—"myned heibio," yn Saesoneg *Passover*, gyda chyfeiriad at yr angel dinystriol yn myned heibio tai meibion Israel. (Exodus 12: 21—20). *Gwyl Fair* (y Forwyn Fair) Mawrth 25ain. *Gwyl Barna*, neu *Barnabas*, Mehefin 11eg; Ffair Barna yn Llandilo a Chastellnewydd Emlyn. *Barnaby's Day* (*St. Barnabas, the Apostle*). "*Barnaby bright. The longest day and the shortest night.*"

31.—*Mari Lwyd*.—Un o'r hen weddillion Pabyddol sydd yn aros yn rhai parthau o Gymru hyd heddyw. Mari Lwyd yw Mair Fendigaid. Duw Lwyd yw'r Bendigedig Dduw.

32.—Y "dyn hysbys" oedd un a gymerai arno yn mhlith pobl dywyll i ddatguddio pethau cuddiedig oddiwrth bobl eraill. Math o *Fortune Teller* oedd. Enillodd Harris, Cwrt-y-cadno enw mawr iddo ei hun yn y maes hwn. Darllener "Rhys Hywel Rhys" yn YMOFYNYDD 1851, t. 14, 39.

33.—Awgrymir fod y pedair elfen a grybwyllir yn gwneud i fyny y byd materol. Gwyddis erbyn heddyw fod yr "elfenau" yn rhifo ugeiniau ac nad yw un o'r pedair yn elfen syml o gwbl.

GOFYNIADAU MIS EBRILL.

33.—Pwy yn ol Iolo Morganwg oedd cyfieithydd cyntaf y Testament Newydd?

34.—Beth ddylai 1567, 1588, a 1620 awgrymu i'r Cymro?

35.—A ydyw'r Undodwr Cymreig

yn colli ei flas ar emynau Iolo? Os yw paham?

36.—Pwy gyfieithodd emynau Watts i'r Gymraeg?

37.—Beth oedd y llyfr emynau cyntaf fu gyda ni fel enwad?

38.—Paham nad yw emynau Pant-y-celyn yn fwy derbyniol gan yr Undodiaid?

39.—Pwy gyfansoddodd "Cri'r Carcharor."

40.—Yn mha le y dywedir i Dafis, Castellhywel bregethu ei bregeth olaf? Beth oedd y testun?

41.—Enwch dri o enwogion y pwlpud Cymreig yn mhob un o'r cyfundebau canlynol: Eglwys Lloegr, yr Anibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, y Methodistiaid Wesleyaidd, a'r Undodiaid. (Enwogion y gorphenol feddylir.)

Anfoner pob gohebiaeth yn nglŷn â'r golofn hon i'r Parch. Arthur Thomas, Glasfryn, Llandyssul.

MANION AC HANESION.

Y Cyfarfod Chwarterol.—Cynhelir cyfarfodydd chwarterol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn y Wig, ger Penybont-ar-Ogwr, Mercher ac Iau, Ebrill 12fed a 13eg. Bydd gwasanaeth a dwy bregeth nos Fercher am 7,—un yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg. Cyferfydd y pwyllgor bore dranoeth am 9, a gwasanaeth Saesneg gydag un bregeth am 11. Am 2.30 bydd cyfarfod cyhoeddus i ddathlu canmlwyddiant genedigaeth yr Undodwr byd-enwog, Dr. James Martineau, yr hwn a anwyd Ebrill 21ain, 1805. Ceir anerchiad gan Lywydd y Gymdeithas—y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford, darllenir papyr yn Saesneg i gychwyn a siaredir i ganlyn gan amryw eraill. Yn yr hwyr am 7, gwasanaeth, a dwy bregeth, y diweddaf yn y gyfres yn Gymraeg gan y pregethwr appwyntiedig—y Parch. John Davies, Alltyplacca. Gwneir casgliad yn mhob oedfa at y Gymdeithas a'r treuliau lleol. Rhoddir y croesaw mwyaf calonog i bawb, yn weinidogion a lleygwyr, gan yr eglwys a'r gweinidog, y rhai ydynt mor awyddus i gael cyfarfod llwyddianus a bendithiol. Rheda *trains* o Benybont i Southerndown Road, tu fewn i ddwy filldir i'r capel.—W. James, Ysg. y Gymdeithas.

Penybont-ar-Ogwr.—Bydd yn dda gan ddarllenwyr Yr Ymofynydd i glywed fod yr ymgais i adnewyddu yr achos Undodaidd wedi bod yn hynod lwyddianus yn ystod y gauaf hwn. Hyd tufewn i'r ddwy flynedd ddiweddaf yr oedd y capel wedi ei gau i bob pwrpas ymarferol, ac wedi bod yn gauedig am flynyddau gyda'r eithriad o wasanaeth achlysurol. Y teimlad cyffredin oedd fod agwedd pethau yn hollol anobeithiol. Er gwaethaf hyny penderfynodd y *South East Wales Unitarian Society* mewn cydweithrediad a Chymdeithas Undodaidd Llundain i wneyd un ymgais cyn rhoddi y lle i fyny yn gyfangwbl. Sefydlwyd y Parch. D. Rees, Rhondda, yn genhadwr yno ac yn y Wig ar yr un pryd. Gweithiodd Mr. Rees yn wyneb anhawsderau fil yn ystod y flwyddyn gyntaf gydag ychydig iawn o lwyddiant i'w gefnogi. Ond fel mae'n digwydd yn fynych ar ol ymdrech a dyfalbarhad trodd y llanw o'i du, ac yn ystod mis Mawrth ni fyddem yn mhell o le wrth ddweyd fod Mr. Rees yn pregethu i gynulleidfa luosocach na'r rhan

fwyaf o weinidogion Undodaidd yn Nghymru. Yn Nhachwedd diweddaf daethai rhyw ugain i wrando arno fel rheol, ac mae y cynulliadau wedi bod ar gynydd parhaus byth oddiar hyny. Ar y 5ed o Fawrth yr oedd y rhif yn 158. Gyda'r fath nifer codai anhawsderau oherwydd fod y llyfrau emynau yn brin ; a gwaeth na hyny nid oedd lle i'r bobl i eistedd i lawr heb fyn'd i'r hen oriel nad oedd wedi ei ddefnyddio yn nghof dynion, ac heb un ddarpariaeth ar gyfer ei goleuo. Ymgymerodd un o'r cyfeillion sydd newydd uno a'r gynulleidfa, heb fod mewn cwrdd nac eglwys, mae'n debyg, er ys 25 o flynyddau, â gosod nwy i fyny yn y *gallery*, ac mae pob peth yn myned yn mlaen yn hwylus yn awr o dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol. Gobeithiwn oll, fel yr ymddengys pob argoel yn bresenol, y terfyna ymdrechion Mr. Rees i ffurfio eglwys gref yn Penybont. Mae ganddo faes helaeth mewn tref boblog a chynyddol a thueddiadau yr oes, yn neillduol mewn trefi Saesneg yn Nghymru, yn ffafriol i'r Efengyl Ryddfrydig y mae Mr. Rees mor fedrus yn ei phregethu.—O.B.

Y PARCH. J. TYSSUL DAVIS, B.A., CHATHAM. — Yn *Light* am Mawrth 4ydd, ymddengys adroddiad o ran gyntaf o anerchiad a draddodwyd yn ddiweddar gan Mr. Davis o flaen Cynghrair Ysprydegol Llundain yn neuadd y *British Artists*, Pall Mall. Y testun oedd "Sylweddau Anweledig yn eu cysylltiad ag Ysprydegaeth." Nid yw'r pwnc yn gynefin i ni, ond mae'n hawdd gweled fod Mr. Davis wedi gwneyd astudiaeth ddifrifol o hono, a bod yr ymdriniaeth yn wir fedrus a meistrolgar. Dywedodd ar y dechreu mai hwn oedd yr achlysur cyntaf iddo siarad yn gyhoeddus ar y fath bwnc i gynulleidfa mewn cydymdeimlad a'i safle fel Ysprydegwr. Mae'r anerchiad yn amserol, a'r arddangosiadau y ceisir cyfrif am danynt yn rhy bwysig i'w hanwybyddu.

Y MERTHYR EXPRESS.—Gobeithiwn nad oes dim allan o le ein bod yn datgan ein diolchgarwch i'r *Express* am y nodyn yn nghylch yr YMOFYNYDD a ymddangosodd yn ei golofnau Mawrth 4. Cyfeiria at bapyr y Parch. J. Hathren Davies, Cefn, fel yn "*alluog iawn*," a gwna sylw cymeradwyol o bethau eraill. Nid yn aml y cawn gyfleusdra i ddiolch fel hyn, oblegid nid yn aml y gwneir sylw o'r YMOFYNYDD mewn modd ffafriol neu anffafriol gan y Wasg Gymreig. Anwybyddir ef yn hollol, mor bell ag y gwyddom, gan bapyrau crefyddol Cymru, gyda'r eithriad o'r *Haul*. Defnyddia hwnw ambell i nodyn o hono er mwyn fflangellu yr enwadau uniawngred, a dangos iddynt trwy esiampl yr YMOFYNYDD, i'r fath ddiwedd ofnadwy y mae pob sism oddiwrth yr eglwys yn gogwyddo. Wedi diolch fel hyn i'r *Express* carem alw sylw ein darllenwyr, yn neillduol y rhai a drigant yn Merthyr ac Aberdar a'r cylchoedd, at yr adroddiadau cyflawn a ymddangosant ar ei dudalenau yn wythnosol o bregethau a draddodir gan rai o brif weinidogion y gymdogaeth. Y gyntaf yn y gyfres yw pregeth ragorol y Parch. John Thomas, gweinidog yr Annibynwyr, yn Soar, Merthyr, a'r "Grefydd yn y cartref." Mantais fawr i bob teulu fyddai darllen hon, a'i gwneyd yn reol ddiogel ymddygiad a bywyd. Yr ail a ymddangosodd Mawrth 18fed yw pregeth y Parch. R. J. Jones, M.A., Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ar "Iesu—y Crist"—pregeth alluog ac amserol fel y gallesid disgwyl. Dymunwn bob llwyddiant i'r anturiaeth newydd hon ar ran y *Merthyr Express*, a byddai yn dda i bapyrau eraill i gymeryd yr awgrym. Lleinw y pwlpud le pwysig yn mywyd y genedl, ond nid lle cyfatebol yn ein newyddiaduron.

UN O STRAEON LLYFRBRYF.—Er mwyn deall y stori, cofied y darllenydd mai yr enw cyffredin yn y Gogledd am offeiriad yw "person" oddiwrth y Saesneg "parson." Tiriodd morwr o Sir Fon yn Lerpwl nos Sadwrn, pan yr oedd yn rhy ddiweddar iddo fyn'd adref. Gorfodwyd

iddo aros yno hyd fore Llun. Aeth i un o ysgolion y Methodistiaid prydnawn Sul, a ffeindiodd ei le yn yr un dosbarth a Llyfrbryf. Aethant ar draws y Diafol, a gofynodd yr athraw, A oeddynt yn credu fod y Diafol yn berson? "Oedd, wrth gwrs," meddai un, "oni ddywed y Gair ei fod yn rhodio, allai fe ddim rhodio heb fod ganddo draed. Yr oedd yn llyncu hefyd, ac i ba ddyben os nad oedd cylla ganddo," &c. Atebai un arall i'r gwrthwyneb. Nis gallai gredu ei fod yn berson. Rhyw ddull ffigyrol oedd i osod allan yr egwyddor o ddrwg mewn bywyd. "Wel, beth i chwi y gwr diarth o Sir Fon yn feddwl?" "Mi ddeyda wrthych," oedd yr ateb. "Tybiwn i ei bod yn ddigon i'r hen rascal fod yn glochydd heb fod yn berson." Felly, meddai Llyfrbryf, taflodd y morwr y Diafol dros y bwrdd i'r môr fel y gwnaed a Jonah gynt.—*O "Geninen Gwyl Ddewi."*

Peth Newydd yn y Weinidogaeth.—Dim ond o hirbell y gallwn ni yn y wlad hon efelychu dulliau Americanaidd. Er ys ychydig yn ol ordeiniwyd merch—Miss Von Petzold—i fod yn weinidog ar eglwys Undodaidd yn Leicester—trefn sydd wedi bodoli yn mhob enwad braidd yn y Talaethau er ys blynyddau bellach, er mai dyma'r engraifft gyntaf yn Lloegr. Ond beth ddywedir am y newyddbeth canlynol yn nhrefniant y weinidogaeth? Mae y Parch. Dr. Crooker yn un o brif weinidogion ac awdwyr Undodaidd yn y Talaethau. Dwy flynedd yn ol yr oedd yn traddodi y bregeth flynyddol o flaen y *British and Foreign* yn Llundain. Felly mae ei enwogrwydd wedi cyrhaedd dros y môr. Daeth ei wraig drosodd gydag ef ar ymweliad y tro hwnw, a bu yn siarad mewn amryw-iol gyfarfodydd yn y wlad hon, gan adael yr argraff ei bod yn *fatch* bron i'w gwr ar y llwyfan cyhoeddus. Hyd yn ddiweddar yr oedd Dr. Crooker yn weinidog yn Ann Arbor Michigan—lle pwysig oherwydd fod prif athrofa y dalaeth yno. Mae eglwys Undodaidd lewyrchus dros ben yn y lle, a gwnaeth Dr. Crooker gyda chymhorth ei wraig waith ardderchog yno, a chafodd hi gyfleusdra i barotoi ei hun ar gyfer y cyfnewidiad rhyfedd a gofnodwn yn awr. Mae Dr. Crooker wedi derbyn galwad i fod yn weinidog eglwys Undodaidd Roslindale, yn agos i Boston, cangen o hen eglwys Theodore Parker, yn West Roxbury. Rhyw ddwy filldir o Roslindale, mae eglwys *Universalists* Jamaica Plain, ac mae Mrs. Crooker wedi ei hethol i fod yn weinidog ar hono. Dewisasant dy i fyw, wrth gwrs, i fod yn gyfleus i'r ddwy eglwys. Fel prawf arall o agosrwydd perthynas a chydymdeimlad yr Undodiaid a'r *Universalists* yn America, gallwn grybwyll fod mab gan Mr. a Mrs. Crooker yn weinidog gyda'r *Universalists*. Trueni na fuasai'r ddau enwad yn uno a'u gilydd. 'Does dim ar y ffordd yr awr ond ceidwadaeth traddodiad, a thipyn o anhawsder i drefnu trysorfeydd, &c.

Syr Oliver Lodge a'r Esgobion.—Dyfyna y *British Weekly* yr hyn a ganlyn o ddarlith gan Syr Oliver Lodge, penaeth Prifathrofa Birmingham, ac un o brif wyddonwyr yr oes:—"Rhyfedd yw'r camsyniadau a wneir gan duedd naturiol pobl anwybodus i ffeindio noddfa mewn rhyw fath o anffaeledigrwydd. Yr wyf wedi gwel'd fod sawl un o'r esgobion newydd broffesu eu cred yn manylion traddodiadol diluw Noah, oherwydd fod yr Athraw Mawr wedi defnyddio y stori i eglurhau ei addysg. Byddai yn gwbl gystal iddynt gredu yn nghywirdeb llythyrenol y digwyddiadau a ddesgrifir yn namegion y Mab Afradlon, neu Dives a Lazarus. O bosibl nas gellir yn Palestina ddangos y *post* wrth yr hwn y rhwymid y llo pasgedig am rhyw geiniog o wobr. Dangosir pethau cwbl mor wrthun gan y brodorion yn awr ac yn y man. Mae anffaeledigrwydd o'r fath hyn yn afiach a babanaidd, ac nid yw yn beth i'w ddisgwyl oddiwrth y mwyaf o'r proffwydi." Mae Syr Oliver yn rhy ddrwg i gyhuddo dynion fel yr

esgobion o anwybodaeth. Credwn mai nid yn eu gwybodaeth y mae'r diffyg. Amodau y swydd a ddaliant a thraddodiadau yr eglwys sydd yn atebol am y drwg. Ond mae gan yr esgobion gystal cyfle a neb arall, os nad gwell, i gael gwared o'r baich.

ABERDAR, HEN DY CWRDD.—Cafwyd dau berfformiad o'r Japanese Operetta boblogaidd, y "Princess Ju Ju" *in character*, gan obeithlu'r eglwys o dan arweiniad Mr. John Thomas. Yr oedd yr olygfa ar y dechreu—ar y 63 chwareuwyr yn eu gwisgoedd dwyreiniol dysglaer yn swynol hwnt i ddesgrifiad, a phleser oedd gweled yr Hall fawr yn orlawn, fel y gorfuwyd cael ail berfformiad er mwyn y rhai fethodd ddyfod i mewn. Aeth pawb drwy eu gwaith yn dda a throdd pob peth allan yn llwyddiant perffaith. Carem enwi'r prif chwareuwyr ond nid yw gofod yn caniatau. Gwnaeth pob un ei oreu, ac er fod goreu rhai yn well na'u gilydd, eto yr oedd yr oll yn ganmoladwy iawn. Ewch rhagoch, gyfeillion.

Y REHEARSAL.—Bu arweinydd y Gymanfa Undebol—y Parch. D. J. Evans, Cwmbach—ar ymweliad a Sir Aberteifi, ddydd Sul, Mawrth 19. Cyfarfyddodd a'r gwahanol gorau yn Nghapelygroes am 2, ac yn Mhantdefaid am 6. Daeth cynulliadau da yn nghyd, a chaed prawf fod y gwaith wedi ei gychwyn o ddifrif. Un peth a ddigalonai yr arweinydd a phob un arall yn y rhanbarth uwchaf oedd gweled fod un gynulleidfa heb gael ei chynrychioli o gwbl. Clywsom fod rhyw esgeulusdod tebyg wedi digwydd o'r blaen. Wrth gwrs mae peth fel hyn yn dweyd ar lwyddiant y Gymanfa; ond mae'n rhywbeth gwaeth na hyny, mae'n ddangoseg fod bywyd eglwys sydd yn methu dihuno i lais dyledswydd ar ei drai ac nid ar ei lanw. Ac mae hyny yn ddigalondid neillduol pan mae swn deffroad crefyddol trwy'r wlad yn gyffredinol. Gobeithiwn weled pawb ar eu goreu pan y daw yr arweinydd ar ei ymweliad nesaf. Dylai Cymanfa Abertawe yn y flwyddyn 1905 fod y goreu yn hanes ein cynulliadau cerddorol.—CARDI.

PENTRE, RHONDDA. — Chwefror 28, talodd Dr. Warschauer, Clifton (o dan nawdd cymdeithas y S. E. Wales) ymweliad a'r lle uchod i draddodi ei ddarlith adnabyddus ar y testyn "Agnosticism and Religion." Ofnid ar y cyntaf fod ei dyddiad wedi syrthio ar adeg dra anffafriol, am fod holl drigolion y lle, yn herwydd dylanwad y cyffro cyffredinol mor llwyr ymroddedig i'w cyfarfodydd gweddi; a rhaid cyfaddef mai gyda chalonau pryderus y croesom drothwy ein teml yn nghwmni yr athronydd enwog. Ond diolch i ffawd, siomwyd ni ar yr ochr oreu. Yr oedd y capel yn llawn, a'r bobl yn anesmwytho o dan rym y dyhead i gael cipolwg ar awdwr "Anti-nunquam." Cymerwyd ygadair gan y gweinidog am 7.30 p.m. Enillodd Dr. Warschauer sylw a gwrandawiad mwyaf astud y dorf o'r dechreu. Ar ol iddo orphen ei ddarlith odidog anogodd y bobl i roddi gofyniadau, ac ar unwaith cymerwyd mantais o'r cyfleusdra. Atebwyd hwynt yn y modd mwyaf deheuig a meistrolgar, a theimlent i gyd iddo wneuthur perffaith chwareu teg a'r pynciau osodwyd o'i flaen. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Dr. Warschauer gan Mr. Hope, Treorky, ac eiliwyd hi gan Mr. Smith, B.A., athraw yn yr *Higher Grade* Pentre, a chafwyd ychydig eiriau pwrpasol gan y Parch. Simon Jones, B.A., Pontypridd.

ALLTYPLACA. — Dydd Llun, yr 20fed o Fawrth, cynaliodd y gynulleidfa hon ei gwyl dê a'i chyfarfod blynyddol. Cyfranogwyd gan nifer liosog iawn o ddeiliaid yr Ysgol Sul, a chyfeillion agos a phell o'r danteithion a ddarparesid mor helaeth ar eu cyfer gan ddau frawd ffyddlon o'r eglwys. Yn yr hwyr bu cyfarfod llenyddol. Yn absenoldeb Dr. Jones, Llanybyther, y cadeirydd, gorfodwyd y gweinidog i gymeryd ei le. Arweiniwyd yn ei ddull medrus a dyddan, gan y Parch. E. O. Jenkins, y Llwyn. Yr oedd y canu, yr adrodd a'r cyfan yn adlewyrchu clod ar y nifer liosog a gymerodd ran yn y gwaith, a'r unig

beth annymunol yn nglyn ag ef oedd, fod y capel lawer yn rhy fychan i gynwys y gynulleidfa mewn modd cysurus. Derbynied y cyfeillion a gymerasant ran i wneud y cyfarfod yr hyn a fu, ddiolchgarwch gwresog, y gweinidog a'r gynulleidfa. Y mae gwobrwyon i'r rhai mwyaf rheolaidd yn yr Ysgol i gael eu cyflwyno ar y Sul.

CAPELYBRYN. — Cynaliodd yr eglwys uchod ei gwyl dê flynyddol dydd Mawrth y 14eg o Fawrth. Daeth aelodau yr Ysgol Sul yn nghyd a llawer o gyfeillion at eu gilydd i fwynhau y wledd. Yn yr hwyr bu cyngherdd tra llwyddianus. Yn absenoldeb D. R. Jones, Ysw., Llwynygroes, gorfu i'r hen weinidog gymeryd ei le. Arweiniwyd y cyfarfod yn ddymunol iawn gan Mr. J. R. Jones, Arwerthwr. Yr oedd llyfrau gwobrwyon i'r deiliaid mwyaf rheolaidd wedi dod, ond cadwyd hwynt i'w dosparthu hyd Sul dilynol er mwyn cynilo amser. Trodd y cyfan allan yn hollol lwyddianus. Yr oedd y capel yn gysurus o lawn, heb fod yn ormodol felly ; y canu a'r adrodd yn dda, a'r gwrandawiad yn bob peth ellid ddymuno. Diolch i bawb am eu cynorthwy o bob math.

CEFNCOED. — Ar Sul a Llun, Mawrth 19eg a'r 20fed, cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol yr eglwys yn yr Hen Dy Cwrdd, a chan mai y rhai hyn oedd y cyntaf o gyfres a fwriedir gynal, teimlid gradd o bryder gyda golwg ar eu llwyddiant. Diflanodd yr holl bryderon, a chafodd pawb eu llwyr foddloni gan y dull llewyrchus yn yr hwn y trodd y cyfan allan. Ar y Sul pregethodd y Parch. Simon Jones, B.A., i gynulliadau lliosog, a chafodd ei bregethau godidog wrandawiad astud. Dydd Llun dechreuwyd cyfarfod y prydnawn gan y Parch. E. Walter Thomas (A), a phregethodd y Parch. W. Tudor Jones, yn ardderchog iawn. Yn yr hwyr dechreuwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., a chafwyd dwy bregeth ragorol gan y ddau bregethwr a enwyd eisoes. Yr oedd y Parchn. D. J. Williams, Merthyr, a J. P. Kane, Dowlais hefyd yn bresenol. Yr oedd yr hin yn deg, a'r cynulliadau yn lliosog. Ychwanegid at lwyddiant y cyfafodydd gan y canu hwylus. Rhifa Cor yr Hen Dy Cwrdd dros gant a haner, a chanodd, o dan arweiniad Mr. J. R. Evans, ddwy anthem, "Molwch yr Arglwydd (J. Thomas), a "Teyrnasoedd y Ddaear" (Ambrose Lloyd) yn fendigedig. Teimlwn, fel eglwys, yn foddhaus iawn ar lwyddiant mawr ein cyfarfodydd cyntaf.

LLWYDDIANT.—Bydd yn dda gan gyfeillion lliosog Miss Megan Owen, 49, Falmouth Road, Llundain, gael ar ddeall ei bod wedi pasio y *Matriculation* yn Mhrifysgol Llundain. Siarada hyn yn uchel am ei galluoedd gan nad yw ond unarbymtheg oed. Pan y dywedwn mai merch i Mrs. Asenath Owen, chwaer y ddiweddar Miss Evans, fu yn ysgolfeistres yn Ysgol Dihewyd ydyw, bydd yn adnabyddus i amryw o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Nid hwn ydyw y tro cyntaf iddi fod yn llwyddianus. Yn Mehefin 1901 enillodd y *Junior County Scholarship* am ddwy flynedd. Yn Ngorphenaf 1903 enillodd y *Leathersellers' Scholarship* o £10 10s. Yn Mehefin, 1904, pasiodd yr *Higher Certificate of Oxford and Cambridge School Exams.* ; ac ar ei llwyddiant yn pasio hon rhoddodd y City of London School, Scholarship o £30 iddi. Eiddunwn iddi ddyfodol llwyddianus eto.

PANTDEFAID.—Dydd Gwyl Dewi cynhaliodd yr Ysgol Sul hon ei gwyl dê a'i chyfarfod adloniadol blynyddol, a throdd y cyfan allan yn llwyddianus dros ben. Rhoddwyd y wledd eleni trwy garedigrwydd Misses Bessie a Lena Evans, Alltrodyn Arms, ac yr ydym oll dan rwymau diolchgar iddynt am eu haelioni. Cynorthwyid hwy wrth y byrddau gan gyfeillion caredig y gynulleidfa, a chredwn fod mwy nag arfer wedi dod yn nghyd i gyfranogi o'r pethau da ddarparesid. Yn y hwyr cafwyd un o'r cyfarfodydd llenyddol mwyaf hwylus fuom ynddo er ys tro. Er iddo barhau am yn agos bedair awr, nid oedd yn rhy hir

wrth fodd neb. Y plant yn naturiol gafodd y lle blaenaf. Adroddwyd a chanwyd ganddynt yn felus o dan arweiniad y cyfaill ymroddgar Mr. David Davies. Canwyd hefyd gan y cor a'r cor meibion dan arweiniad medrus Mr. L. T. Thomas. Cafwyd hefyd amryw gystadleuaethau cyfeillgar mewn corau, &c., yn mhlith aelodau yr Ysgol Sul a'r Ysgol Gan, ac yr oedd yn arwydd obeithiol a chalonogol i weled cynifer o bobl ieuainc yn cystadlu. Pwyswyd hwy yn y glorian feirniadol gan Mr. J. R. Thomas, C.M., Pontshan. Rhanwyd hefyd amryw lyfrau gwerthfawr rhwng y plant yn wobr am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn. Rieni, pobl ieuainc a phlant, deliwch ati yn eich ffyddlondeb.

Bwrdd y Golygwyr.—Mae yr ysgrifau canlynol ar law, a chant ymddangos yn y rhifyn nesaf a'r rhai canlynol—"O Fôr i Deifi"; "Y Proff. Hermaun o Marburg," gan Mr. Islan Jones; "Bedydd," gan T. C. U.; "Bywgraffiad Humphrey Bromley," gan yr un; "Nid â rhinwedd byth i'r bedd," gan Dafydd Ifon; "Tyfiant Crefydd yn Nghrediglon," gan D. Lewis, Llancrwys; 65 o ofyniadau cymhwys i golofn y Wybodaeth Gyffredinol; yn nghyd â blodeuglwm o ddarnau barddonol oddiwrth gyfaill. Yr ydym yn dra diolchgar am yr oll.—Gol.

Arholiad Blynyddol yr Ysgol Sul.—Ymddengys fod dyddiad yr arholiad wedi ei osod ar ddydd Gwener y Groglith, ond gan y bydd y dyddiad hwn yn anghyfleus i lawer, gohirir yr arholiad am wythnos. Felly cymer le ddydd Gwener, Ebrill yr 28ain. Hyderwn fod athrawon yr Ysgol Sul, y bobl ieuainc a'r plant yn mhob man ar eu goreu yn paratoi y gwahanol Safonau. Gan fod Mr. Jenkins, yr hen ysgrifenydd wedi ymadael a Chymru, bydd y gwaith angenrheidiol yn cael ei gario allan gan Olygwyr Yr Ymofynydd, at y rhai y cyfeirier pob gohebiaeth ar y pwnc.

Taliadau ac addewidion tuag at adeiladu Brondeifi.—Cydnabyddwyd eisoes, £1623 18s. 6c; L. Jones, Blackwood, 1£ 1s.; C. Hopkin, Pontardawe, 5s.; Prosser Thomas, Trebanos, 5s.; Mrs. H. Giddings, eto, 5s.; John Morgan, eto, 5s.; W. Lewis, eto, 5s.; Lewis Lewis, eto, 10s.; J. Henry Morgan, eto, 5s.; T. J. Evans, eto, 10s.; T. Jones, Swansea, 10s.; D. Thomas, Rhiwsonuchaf, Llanwenog, 5s.; D. James, Beilibedw, Llanllwni, 5s.; John Jones, Bryntirion Street, Dowlais, 5s.; E. M. Jenkins, Ironmonger, eto, 10s.; Cyfeilles, 10s.; Mr. and Mrs. Pughe-Jones, Deptford, London, 10s.; Joseph Edwards, Cwmcanol, Lampeter (2nd don.), 5s.; Friend, 10s.; J. Meade-King, Liverpool, 10s.; Rev. J. C. Odgers, Bury, 10s.; Friend, 5s.; Charles Jecks, Bristol, 5s.; Lieut.-Col. Pilcher, Old Trafford, 10s.; Misses George, Aberdare, 10s.; Miss Smith, Eccles, 5s.; Rev. H. E. Dawson, Gee Cross, Hyde, 10s.; J. Saunders James, Cwmanne, Lampeter, 10s.; Mrs. Talbot, Kidderminster, 5s.; Misses Guilford, Nottingham, 10s.; Mrs. Evans, Cilgwynucha, Llangybi, nr. Lampeter, 10s.; Rees Isaac, Forest lane, eto, 5s.; E. M. Swanwich, West Hartlepool, 10s.; Daniel Hughes, Highmead, Llanybyther, 5s.; John Jones, Springfield, Lampeter, 10s.; John Jones, Ffynonlas, nr. Cribin, 5s. 6c.; B. Jenkins, Tynberth, Dihewyd, 5s.; A.E.B., Southport, 10s.; Mrs. Burchett, eto, 5s.; Morgan Evans, Oakford, Llanarth, 10s.; G. Griffiths, Nantyrefail, eto, 10s.; Miss Davies, Llwynrheol, eto, 5s.; Mrs. Evans, New Quay, 5s.; Evan Davies, Nantymoel, Llanarth, 10s.; D. Jones, Garthelyd, eto, 5s.; Mrs. Lewis, Ffynonmeredydd, do., 5s.; Isaac G. Evans, C.M., Mydroilyn, 5s.; Miss Davies, Rhoslwyn, Cribin, 5s.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.



DO YOU KNOW

A GOOD THING FOR—

HEADACHE, TOOTHACHE, and NEURALGIA ?

Is a question often asked and, as a rule, every person suggests a different remedy. As a guide to all sufferers of these distressing complaints, we have no hesitation in recommending . .

DAVIES' NERVINE POWDERS.

One dose generally relieves the most agonising pain.

Sold in Boxes 1s. 1½d. each post free.

From THOS. DAVIES, M.R.P.S.,
Chemist, Llandyssul.

YOUR EYESIGHT .



Is a most precious gift. If it is defective do not let it suffer from want of

SUITABLE GLASSES.

Being in possession of the most approved instruments, the sight can be accurately tested.

Sufferers should lose no time

IN CONSULTING

D. JONES

Qualified by Examination, London.

11, HIGH STREET,
(Opposite Royal Oak Hotel).

LAMPETER.

WEDDING RINGS. RELIABLE WATCHES.
Lowest Cash Value.

☞ Persons that cannot call will do wise to write.

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

ALBION, LLANDYSSUL AND PENCADER.

BOOTS, SHOES, AND SLIPPERS,

The Largest and Best Selected Stock in the Three Counties.

Sole Agent for the Dry Foot Brand. Acknowledged to be the Best Boot in the Market. Every pair guaranteed.

Repairs neatly and cheaply done by experienced men on the premises.

GRIFFITH DAVIES.

EVANS BROS.,

Manchester House, Llandyssul.

TAILORS, OUTFITTERS, HATTERS, HOSIERS, &c.

A large Assortment of Gent's and Youths' Rainproof Coats.

Mourning Orders promptly executed.

An Inspection will be much appreciated.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

NEW GARDEN & AGRICULTURAL SEEDS.

The Best Varieties. Proved and Tested for Growth and Quality.

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees & Shrubs.

Catalogues Free.

Funeral Wreaths, Crosses, Wedding Bouquets, &c.

HARRY COYSH, Nott Square, Carmarthen.

25 years practical experience in Home and Foreign Nurseries and Seed-growing Establishments.

A very Choice Selection of Artificial Wreaths always in Sotck.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Henry Thomas & Sons,

GENERAL DRAPERS,

'THE EMPORIUM,' 2, GUILDHALL SQUARE,

CARMARTHEN.

Ground Floor.

Linen, Cotton and Woollen Goods, Dresses, Silks, Hosiery, Gloves, Laces, Ribbons, Trimmings, and Gents' Mercery, Linoleums, Carpets, and General Furnishing.

Show Rooms.

The Largest and Most Selected Stock in the District of Mantles, Jackets, Costumes, Furs, Ladies' and Children's Underclothing of Every Description. A Grand Show of English and French Millinery.

☞ Dressmaking and Millinery Workrooms under Most Competent and Experienced Management.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS).

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.

Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College, Cambridge; Wrangler 1890.

Mistresses: Miss Myfanwy Jones, B.A., Honours, Wales;
Miss Lena Jones, B.A., Wales; Cambridge Teachers' Diploma.

Classics and Modern Languages: J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).
Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science: A. C. Robinson, B.Sc. (Durham).

Drawing: Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art

Instrumental Music: Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music: Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery: Miss E. W. Williams.
First Class Diplomas in Laundry and Cookery

Tuition Fee: £1 per Term or £3 per Annum. Music (Pianoforte) £1 1s. per Term.

Implements for all kinds of good farming.

First Class Ironmongery

FOR THE

FARMER, BUILDER, AND HOUSEHOLDER,

AT

WILLIAM JAMES',

IRONMONGERY AND IMPLEMENT DEPOT,

LLANDYSSUL.

ALSO AT NEW QUAY.

TYSSUL STORES. LLANDYSSUL.

D. CHANNING THOMAS,

GROCER, TEA DEALER & GENERAL MERCHANT,

Try D. C. T.'s TEAS—3 different blends of every price. One sure to please.
Prices—1/8, 2/2, and 2/6. Quality at price cannot be beaten.
Write for Free Sample.

This Space To Let.

Apply—

EDITORS, LLANDYSSUL.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.